CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

CYNLLUN ADDYSG GYMRAEG

Cynllun Addysg Gymraeg, a baratowyd yn unol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

RHAGFYR 2006

Mr Hywyn Williams
Prif Swyddog Addysg Statudol

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

Tabl Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Cynllun Trefniadaeth Ysgolion y Sir (a fydd wedi ei gynnwys yn y Cynllun Addysg Sengl o fis Mai 2006) a'i berthynas â'r Cynllun Addysg Gymraeg
3. Cefndir ieithyddol a daearyddol
4. Sefyllfa'r iaith Gymraeg ers 1990
5. Prif nod ac amcanion y Cynllun Addysg Gymraeg
6. Hanes a datblygiad polisi iaith Gymraeg yr awdurdod
7. Twf a datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog
8. Datblygiad y Gymraeg fel ail iaith o fewn yr AALl
9. Diffiniadau a chategorïau ieithyddol ysgolion
10. Y ddarpariaeth bresennol
11. Addysg feithrin cyfrwng Cymraeg
12. Ysgolion cynradd ac addysg gynradd
13. Ysgolion uwchradd ac addysg uwchradd, gan gynnwys Gwasanaethau Gyrfaoedd a Gwasanaethau Ieuenctid
14. Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)
15. Y Gwasanaeth Athrawon Bro a Gwasanaeth Ymgynghorol yr AALl.
16. Canolfannau Iaith
17. Gwybodaeth i rieni ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog
18. Staffio a recriwtio
19. Addysg Gymunedol a Sgiliau Sylfaenol
20. Hyfforddiant a gwasanaethau ar gyfer Llywodraethwyr Ysgol
21. Darpariaeth ôl -16
22. Cysylltiadau ag awdurdodau a mudiadau eraill
23. Y polisi cludiant
24. Y polisi ariannu ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg
25. Dalgylchoedd ysgolion – Y Polisi
26. Datblygiadau i'r dyfodol
27. Monitro
28. Targedau ac amserlen weithredu fesul sector

29. ATODIADAU

1. Gwybodaeth y cyfrifiad: Siaradwyr Cymraeg yn ôl wardiau etholiadol
2. Ystadegau a darogan poblogaeth ysgolion cynradd ac uwchradd
3. Map o'r sir yn dangos lleoliad ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion mewn ardal draddodiadol Gymraeg.
4. Rhestr o gyrsiau HMS a ddarperir ar gyfer Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith.
5. Rhestr o ysgolion meithrin a dosbarthiadau/grwpiau meithrin cyfrwng Cymraeg a gynhelir gan yr Awdurdod
6. Manylion y cysylltiadau ag awdurdodau ac asiantaethau eraill.
7. Niferoedd sy'n dilyn cyrsiau ôl-16 drwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Morgan Llwyd 2004-2005 a 2005-2006.

1 CYFLWYNIAD

1.1 Yn Rhagfyr 1996, cyhoeddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam Gynllun Iaith Gymraeg yn unol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Fe'i cymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac ynddo nodir sut y mae'r Cyngor Bwrdeistref Sirol, wrth ymdrin â'r cyhoedd, yn trin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

Yn unol ag Adran 5 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Addysg Lleol ddarparu Cynllun Iaith Gymraeg sy'n ymdrin yn benodol ag addysg. Er hwylustod cyfeirio, gelwir y cynllun yn "Cynllun Addysg Gymraeg".

1.2 Mae'r "Cynllun Addysg Gymraeg" yn ffurfio rhan o'r Prif Gynllun Iaith.

a) Cymeradwywyd Cynllun Addysg Gymraeg Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn unol ag Adran 14 (1) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, yn Hydref 1998. Yn dilyn cyfnod gweithredu tair blynedd y Cynllun Addysg Gymraeg, lluniwyd y Cynllun hwn fel olynydd iddo.

b) Cymeradwywyd y Cynllun Addysg Gymraeg gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn unol ag Adran 14(1) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar Ragfyr 6ed 2006.

c) Mae'r ymrwymiadau a'r trefniadau yn y Cynllun Addysg Gymraeg wedi eu cymeradwyo ar y lefel uchaf, a gweithredir y Cynllun ag awdurdod a chefnogaeth lawn Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

ch) Os ceir unrhyw dargedau yn y Cynllun Addysg Gymraeg sy'n gofyn am weithredu gweithdrefnau statudol pellach, gweithredir y rhain yn llawn yn unol â gofynion deddfwriaethol priodol megis y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Ceir gwybodaeth bellach ynghylch y "Cynllun Addysg Gymraeg" oddi wrth: -

Mrs Enfys Thomas
Ymgynghorydd Dysgu ac Addysgu'r Gymraeg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Gwasanaethau Hamdden ac Addysg
Canolfan Erlas
Ffordd Bryn Estyn
Wrecsam
LL13 9TY
Rhif Ffôn: (01978) 317635
Rhif Ffacs: (01978) 317609
Cyfeiriad Ebost: enfys.thomas@wrexham.gov.uk

2 CYNLLUN TREFNIADAETH YSOLION Y SIR (A FYDD WEDI EI GYNNWYS YN Y CYNLLUN ADDYSG SENGL (CAS) O FIS MAI 2006) A'I BERTHYNAS Â'R CYNLLUN ADDYSG GYMRAEG

Mae Cynllun Trefniadaeth Ysgolion y Sir (CTY) a'r CAS dilynol yn dangos ymroddiad yr AALl i ddatblygu ei agenda addysg a hyfforddiant a pharhau i wella safonau cyrhaeddiad o'r lefelau presennol. Yn ganolog i'r ymroddiad hwn mae'r elfen hanfodol sy'n sicrhau bod disgyblion a myfyrwyr yn derbyn yr anogaeth addysgol i hyrwyddo eu sgiliau iaith sy'n arwain at ddwyieithrwydd ac felly y rhuglder priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn bodloni anghenion y cymunedau a wasanaethir gan ein hysgolion.

2.2 Mae'r wybodaeth ynghylch y broses dderbyniadau, gan gynnwys derbyn i ysgolion cyfrwng Cymraeg, ar gael i rieni ym mhob cyfnod derbyn.

Mae'r weledigaeth sy'n gynwysiedig yn y CTY a'r CAS dilynol yn dangos yn glir amcanion yr AALl ac yn sefydlu dull yr Awdurdod Lleol o weithredu. Bydd y Gwasanaeth Addysg yn ymdrechu i:

- Hyrwyddo effeithiolrwydd a datblygiad ysgolion er mwyn gwella cyrhaeddiad addysgol ym mhob ystod oed a gallu, yn arbennig os oes tystiolaeth o dangyflawni;
- Cynnig cefnogaeth, cydweithio i ddathlu a hyrwyddo llwyddiant pobl ifanc a disgyblion unigol yn y cyd-destun addysgol ehangach;
- Gwella ansawdd a disgwyliadau bywyd plant a phobl ifanc, yn arbennig y rheiny sydd ag anghenion addysgol arbennig ac/neu sy'n debygol o fod mewn perygl yn ein cymdeithas;
- Darbwyllo mwy o bobl i gymryd rhan mewn dysgu gydol oes mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill a holl aelodau'r cymunedau;
- Darparu gwasanaeth dwyieithog effeithiol ac effeithlon sy'n cael ei arfarnu a'i adolygu'n rheolaidd drwy ymgynghoriad â defnyddwyr y gwasanaeth ac unigolion eraill sydd â diddordeb.

2.3 Bydd y Cynllun Addysg Gymraeg yn cynnwys croesgyfeiriadau penodol at y Cynllun Trefniadaeth Ysgol (bellach yn rhan o'r Cynllun Addysg Sengl (CAS)) pan fo'n briodol. I dderbyn copi o'r cynllun cysylltwch â:

Mr Tom Davies
Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Gwasanaethau Hamdden ac Addysg
Tŷ Henblas
Sgwâr y Frenhines
Wrecsam
LL13 8AZ
Rhif Ffôn: (01978) 297555
Rhif Ffacs: (01978) 297501
Cyfeiriad Ebost: tom.davies@wrexham.gov.uk

3 CEFNDIR IEITHYDDOL A DAEARYDDOL

3.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn Awdurdod Unedol a sefydlwyd pan ad-drefnwyd llywodraeth leol yng Nghymru yn Ebrill 1996. Mae ganddo 52 o gynghorwyr etholedig. Mae'r Cyngor yn gwasanaethu poblogaeth o 128,476 o fewn ardal o 194 milltir sgwâr. Mae crynswth y boblogaeth yn byw yn yr ardal ddinesig, gyda thref Wrecsam sydd â phoblogaeth o 43,000, yn ganolbwynt i'r sir. Mae rhannau gorllewinol a dwyreiniol y fwrdeistref sirol yn wledig o ran eu natur. Mae'r ardal orllewinol yn ardal ucheldir, sy'n cynnwys Dyffryn Ceiriog, tra bod yr ardal ddwyreiniol yn cynnwys gwastadoedd y Dyfrdwy ac ardal fwy tonnog y Maelor. Mae 17,898 (14.43%) o siaradwyr Cymraeg yn byw yn y sir.

3.2 Y wybodaeth ddiweddaraf ar faint a nodweddion poblogaeth y siaradwyr Cymraeg ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam yw'r wybodaeth a gasglwyd o Gyfrifiad 2001. Mae 17,898 o siaradwyr Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol, sy'n cynrychioli 14.43% o'r boblogaeth yn 3 blwydd oed a hŷn. Fodd bynnag, nid yw dosbarthiad y siaradwyr Cymraeg yn gytbwys o bell ffordd fel y gellir gweld o'r map yn Atodiad 1 'Siaradwyr Cymraeg – Gwybodaeth y Sir'.

Mae hyn yn dangos yn amlwg mai'r cymunedau yn y gorllewin, sy'n ffinio â Sir Ddinbych, sydd â'r crynhoad uchaf o siaradwyr Cymraeg. Y cymunedau sydd â'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yw'r ddwy fwyaf gorllewinol, sef Ceiriog Ucha gyda 46.57% a Llansanffraid Glyn Ceiriog gyda 36.60% yn medru'r Gymraeg. Y gymuned â'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yw'r ardal lawer mwy dinesig Rhosllannerchrugog gyda 2,826 o bobl, sy'n cynrychioli 31.02% o'r boblogaeth. Felly yn ôl y disgwyl y cymunedau sydd â'r crynhoad isaf o siaradwyr Cymraeg yw'r rhai sydd gerllaw'r ffin â Lloegr. Yr isaf yw Worthenbury gyda 7.08% ac Erbistock gyda 7.46% yn gallu siarad Cymraeg. Darperir cyfanswm nifer a chanran siaradwyr Cymraeg fesul tref a chymuned yn Atodiad 1.

Lleolir yr Adran Addysg yn Nhŷ Henblas ac mae'r gwasanaeth yn darparu addysg mewn ysgolion i blant rhwng 3 a 18 oed. Mae 19,362 o blant rhwng 3-18 oed yn derbyn eu haddysg yn y Sir: 11,903 yn y sector cynradd a 7,459 yn y sector uwchradd. Mae maint yr ysgolion cynradd yn amrywio o 22 i 339 (ysgol leiaf - Ysgol Llanarmon D.C., yr ysgol fwyaf - Ysgol Babyddol Y Santes Fair). Ad-drefnwyd addysg uwchradd yng nghanol y dref ym mis Medi 2003. Yr ysgol uwchradd leiaf yw Ysgol y Grango gyda 459 disgybl ar y gofrestr a'r fwyaf yw Rhosnesni gyda 1,183 disgybl ar y gofrestr.

3.3 Mae 9% o ddisgyblion cynradd y Sir ac 11% o'r disgyblion uwchradd yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. (poblogaeth gynradd = 11,903; poblogaeth uwchradd = 7,459) Mae oddeutu 0.2% o ddisgyblion y Sir sydd â datganiad Anghenion Addysgol Arbennig yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

3.4 Mabwysiadodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yr egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd wrth ymdrin â'r cyhoedd ac wrth weinyddu cyfiawnder. Mae'r egwyddor yn rhan annatod o'r Cynllun Addysg Gymraeg ac yn un o amcanion yr Awdurdod i hyrwyddo datblygiad llwyddiannus y Gymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith yn ei sefydliadau addysgol.

4 SEFYLLFA'R IAITH GYMRAEG ERS 1990

4.1 Fel nodwyd eisoes, sefydlwyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam pan adrefnwyd llywodraeth leol yng Nghymru yn 1996. Credai Awdurdod Addysg Clwyd yng ngwerth addysgol o feddu ar ddwy iaith gan gyhoeddi datganiad cadarnhaol o blaid gweithredu polisi dwyieithog yn y cyfnodau cynradd ac uwchradd. Mabwysiadwyd yr un polisi gan Wrecsam pan sefydlwyd y sir honno yn 1996.

4.2 Mae cymharu ystadegau Cyfrifiadau 1991 a 2001 yn gyson yn anodd oherwydd fod y cwestiynau a ofynnwyd yn y ddau Gyfrifiad yn wahanol a chan fod newidiadau yn ffiniau siroedd yn sgil adrefnu 1996. Yn ôl Cyfrifiad 2001, roedd 14.43% o boblogaeth Wrecsam dros 3 oed yn medru siarad Cymraeg.

4.3 Yn *Iaith Pawb* Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cymru Dwyieithog, ceir y canlynol; "erbyn 2011 bydd y ganran o bobl Cymru sy'n gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu 5 pwynt canran o'r ffigwr ddaw i'r amlwg o Gyfrifiad 2001". Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ymrwymo i chwarae rhan ragweithiol er cyflawni'r nod cenedlaethol hwn.

5 PRIF NOD AC AMCANION Y CYNLLUN ADDYSG GYMRAEG

5.1 Prif amcanion yr Awdurdod yw:

- Sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg ar gael i bob plentyn y mae ei rieni/warcheidwaid am iddo gael ei addysg drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, a hynny o fewn pellter teithio rhesymol o gartref y plentyn. Golyga hyn blant o oedran cyn-ysgol a hŷn.

- Sicrhau dilyniant datblygedig o addysg gynradd cyfrwng Cymraeg i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg. Bydd disgyblion a gafodd eu haddysg gynradd drwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu mynychu ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg, i hybu dilyniant ieithyddol o gyfnod allweddol 4 (CA4) ymlaen hyd at yrfa dysgu gydol oes disgyblion a myfyrwyr y Sir.

- Creu system sy'n hwyluso a chefnogi mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer hwyrddyfodiaid yn ystod y cyfnod cynradd neu ar ddechrau'r cyfnod uwchradd.

- Sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig yn derbyn cyfle ieithyddol cyfartal o safbwynt addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys yn ystod y broses o lunio datganiad, yn unol â gofynion Côd Ymarfer AAA Cymru.

- Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei haddysgu fel iaith gyntaf ac/neu ail iaith ar yr amserlen yn holl ysgolion y Sir, yn unol ag anghenion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer pob cyfnod allweddol er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle i sefyll arholiad allanol yn y Gymraeg erbyn diwedd CA4.

- Sicrhau bod pob disgybl sy'n mynychu ysgol benodedig Gymraeg yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'r Gymraeg yn rhugl erbyn diwedd CA2.

- Gweithio mewn partneriaeth â'r holl ysgolion er mwyn gwella safon y Gymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith. Bydd holl ysgolion y sir yn derbyn cyngor a

chefnogaeth gan ymgynghorwyr yr iaith Gymraeg a chan y gwasanaethau cefnogi ysgolion. Darperir cefnogaeth bellach gan yr athrawon bro sy'n monitro safonau iaith ac sy'n ymweld ag ysgolion ar ran yr AALl.

- Gwella'r ddarpariaeth sy'n cyfrannu at ymwybyddiaeth well o'r 'Cwricwlwm Cymreig'.

- Hyrwyddo a chynnal y cynllun Hyfforddiant Mewn Swydd presennol a chefnogaeth gyffredinol i ysgolion drwy:

  - ddatblygu'r Gymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith, a

  - rhoi cyfle i ddisgyblion wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru trwy gyfrwng y Cwricwlwm Cymreig.

- Hyrwyddo datblygiad sgiliau iaith Cymraeg disgyblion trwy weithgareddau a phrosiectau penodol e.e. Jambori CA1, storïwyr, cyrsiau iaith preswyl ayb.

6. HANES A DATBLYGIAD POLISI IAITH GYMRAEG YR AWDURDOD

6.1 Ym mis Ebrill 1996 mabwysiadodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam bolisi iaith yr hen Gyngor Sir Clwyd a thrwy wneud hynny sicrhawyd bod addysg ddwyieithog ar gael i'r holl ddisgyblion.

Adolygwyd y polisi hwn ym mis Rhagfyr 1996 pan gyhoeddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ei Gynllun Iaith Gymraeg yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg (1993) ac unwaith eto ym mis Hydref 1998 pan gymeradwywyd Cynllun Addysg Gymraeg yr Awdurdod Addysg lleol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

6.2 Prif amcan y polisi blaenorol oedd sicrhau y gallai disgyblion gyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd eu haddysg orfodol yn 16 oed. Amcan y ddarpariaeth addysgol oedd sicrhau bod disgyblion yn gallu integreiddio cymaint â phosibl i'w cymunedau dwyieithog. Categoreiddiwyd ysgolion fel a ganlyn:

- Ysgolion Cymraeg Dynodedig
- Ysgolion Cymraeg Naturiol
- Ysgolion Cymraeg fel Ail Iaith

Yn 1998 ail-gategoreiddiwyd yr ysgolion hynny a gategoreiddiwyd fel Ysgolion Naturiol Cymraeg i fod yn Ysgolion mewn Ardal Draddodiadol Gymraeg. Parha'r Awdurdod i gategoreiddio ysgolion yn y dull hwn.

6.3 Daw disgyblion sydd yn yr Ysgolion Penodedig Cymraeg, yr Ysgolion mewn Ardal Draddodiadol Gymraeg a'r Ysgolion cyfrwng Saesneg o amrywiaeth o gefndiroedd ieithyddol. Amcan polisi presennol yr Awdurdod yw sicrhau bod yr holl ddisgyblion, beth bynnag fo'u cefndir ieithyddol, yn gallu deall Cymraeg a defnyddio'r iaith i fynegi eu hunain mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Wrth i'r polisi presennol gael ei weithredu bydd lefel y dwyieithrwydd yn amrywio o ysgol i ysgol.

7. TWF A DATBLYGIAD ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG A DWYIEITHOG

Amcan yr AALl yw sicrhau bod disgyblion yn derbyn yr anogaeth addysgol a gynigia addysg ddwyieithog a chynyddu eu rhuglder dros amser. Cyflwynir dwyieithrwydd ar y cyfle cyntaf a chaiff addysg ddwyieithog, unwaith y dechreuir arni, ei chynnal a'i pharhau wrth i'r plant ddatblygu drwy'r system.

Dengys y tabl canlynol batrwm nifer y disgyblion yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg a'r ysgolion mewn ardal draddodiadol Gymraeg ers 1999. Mae tueddiadau demograffig cyffredinol yn dangos gostyngiad o 3-4% yn nifer y disgyblion o oed cynradd ledled yr Awdurdod. Nid yw'r tueddiad amcanol yn y sector cynradd cyfrwng Cymraeg cyn llymed. Gweler Atodiad 2 ar gyfer rhagamcaniad o niferoedd disgyblion fesul consortiwm.

			Disgyblion ar y Gofrestr (Llawn amser)	
Ysgolion	** **Categori**	**Dyddiad agor**	**Medi 1998**	**Medi 2004**
Ysgol Bodhyfryd	A	1977	335	262
Ysgol Bryn Tabor	A	1983	206	192
*Ysgol Min y Ddôl	A	1970	126	58
Ysgol I D Hooson	A	1986	216	200
Ysgol Plas Coch	A	1993	214	205
Ysgol Cynddelw, Glyn Ceiriog	B	1980	97	102
Ysgol Llanarmon DC	B	1904	31	21
Ysgol Morgan Llwyd	A	1963	665	803

* Mae darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gwernant yn Llangollen wedi cael effaith ar nifer y disgyblion ym Min y Ddôl. Yn hanesyddol mae nifer o ddisgyblion o ardal Llangollen wedi mynychu Min y Ddôl i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r disgyblion hyn yn mynychu Ysgol Gwernant, Llangollen erbyn hyn.

** Am wybodaeth bellach ynghylch categorïau ysgolion gweler Adran 9.

Dengys y tabl canlynol nifer y disgyblion fesul cyfnod allweddol sydd wedi derbyn addysg cyfrwng Cymraeg ers 1996.

Disgyblion fesul cyfnod allweddol sydd wedi derbyn Addysg Cyfrwng Cymraeg ers 1996										Ffigwr amcanol
Cyfnod	**1996/ 97**	**1997/ 98**	**1998/ 99**	**1999/ 00**	**2000/ 01**	**2001/ 02**	**2002/ 03**	**2003/ 04**	**2004/ 05**	**2005/ 06**
BC. M/D	338	333	291	274	260	257	280	271	250	251
Cyfnod Allweddol 1	316	317	310	313	287	268	252	250	273	269
Cyfnod Allweddol 2	594	621	623	588	565	566	557	557	517	508
Cyfnod Allweddol 3	332	327	341	360	408	420	419	390	414	424
Cyfnod Allweddol 4	216	203	210	219	212	218	247	278	271	261
Cyfnod Allweddol 5	90	111	113	104	96	93	111	89	118	167
Cyfanswm	1,886	1,912	1,888	1,858	1,828	1,822	1,866	1,835	1,843	1,880

Ceir gwybodaeth ynghylch darpariaeth Blynyddoedd Cynnar yn Adran 11.1.

8 DATBLYGIAD Y GYMRAEG FEL AIL IAITH O FEWN YR AALL

8.1 Dengys y tabl isod nifer yr ysgolion sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith ym mhob cyfnod allweddol a brasamcan o nifer y disgyblion:

	1996				***1999***				***2003***			
	Der CA1	***CA2***	***CA3***	***CA4***	***Der CA1***	***CA2***	***CA3***	***CA4***	***Der CA1***	***CA2***	***CA3***	***CA4***
Nifer yr Ysgolion	*59*	*59*	*9*	*9*	*59*	*59*	*9*	*9*	*59*	*59*	*8*	*8*
Disgyblion	*4822*	*6328*	*3383*	*2411*	*4712*	*6470*	*3395*	*2183*	*4402*	*6239*	*3755*	*2457*

Yn flynyddol cynigir cyrsiau HMS i athrawon ysgolion cynradd ac adrannau Cymraeg mewn ysgolion uwchradd sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. Ceir mwy o fanylion yn llawlyfr HMS blynyddol yr AALl.

Yn unol â'r Cynllun Gwella Gwerth Gorau mae'r AALl yn ymroddedig i greu gwasanaeth unedig sy'n bodloni anghenion defnyddwyr ac sy'n datblygu'r agenda leol a chenedlaethol. O fis Medi 2003 mae'r AALl yn darparu Swyddogion Cyswllt a Chyngor Dysgu ac Addysgu'r Gymraeg fel iaith gyntaf ac fel ail iaith ar gyfer pob ysgol.

Mae holl ysgolion yr Awdurdod wedi ailgyflwyno Cymraeg yn llwyddiannus yng Nghyfnod Allweddol 4 ac mae'r holl ddisgyblion yn cael cyfle i sefyll TGAU neu arholiad achrededig tebyg arall.

Nifer y disgyblion sy'n astudio TGAU cwrs llawn a'r cwrs byr.

Data, Cyfnod Allweddol 4 Cymraeg Ail Iaith - Haf 2004

Nifer yr ysgolion	Maint y grŵp Blwyddyn 11	Cwrs llawn CBAC		Nifer yr ysgolion	Maint y grŵp Blwyddyn 11	Cwrs Byr CBAC	
		Nifer y ceisiadau	% y grŵp			Nifer y ceisiadau	% y grŵp
8	**1,225**	**301**	**24.5%**	**4**	**602**	**287**	**48%**

Haf 2005

Nifer yr ysgolion	Maint y grŵp Blwyddyn 11	Cwrs llawn CBAC		Nifer yr ysgolion	Maint y grŵp	Cwrs Byr CBAC	
		Nifer y ceisiadau	% y grŵp			Nifer y ceisiadau	% y grŵp
8	**1,215**	**267**	**22%**	**5**	**791**	**343**	**43%**

Dwy ysgol yn unig yn yr Awdurdod sy'n darparu addysg ôl-16 drwy gyfrwng y Saesneg. Yn y ddwy ysgol cynigir Cymraeg fel Lefel A/AS. Darperir addysg ôl-16 i fwyafrif y disgyblion yn y fwrdeistref sirol gan Goleg Iâl.

Mae Cymraeg yn cael ei dysgu fel ail iaith i bob disgybl ag AAA oni bai ei fod wedi'i ddatgymhwyso oddi wrth y Cwricwlwm Cenedlaethol yn dilyn asesiad gan y Seicolegwyr Addysg.

8.2 Ers Medi 1999 rhoddwyd y cyfle i bob disgybl sefyll arholiad allanol yn y Gymraeg fel ail iaith erbyn diwedd cyfnod allweddol 4, a pharheir i weithredu'r polisi hwn yn unol â deddfwriaeth addysg Cymru. Anhawster sydd wedi bod yn amlwg yn yr holl ysgolion ers 1999 yw diffyg athrawon hyfforddedig a chymwys i addysgu'r Gymraeg yn ail iaith. Dibynna rhai ysgolion ar athrawon nad ydynt wedi arbenigo yn y Gymraeg. Fodd bynnag mae'r holl athrawon Cymraeg llawn amser yn athrawon arbenigol yn y pwnc. Bydd yr athrawon yn mynd ar gyrsiau HMS priodol a byddant yn derbyn cefnogaeth yn y dosbarth.

9. DIFFINIADAU A CHATEGORÏAU IEITHYDDOL YSGOLION

9.1 Mae'r ddarpariaeth bresennol yn cynnwys:

a) ADDYSG FEITHRIN

Yn unol â gofynion y cynllun darperir addysg feithrin ddwyieithog i holl blant Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Bydd hyn yn sylfaen drylwyr i ddysgu iaith yn y cyfnod cynradd.

Mae'r cyfleoedd addysg gynnar a gyflwynwyd yn ddiweddar yn sicrhau mynediad cydradd i addysg cyfrwng Saesneg a Chymraeg. Gweler hefyd Adran 11 a'r Targedau (Adran 28) am fanylion pellach am y ddarpariaeth feithrin.

b) ADDYSG GYNRADD

Mae pob un o ysgolion cynradd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ysgolion dwyieithog ac yn disgyn i mewn i dri chategori:-

A Ysgolion penodedig Cymraeg lle dysgir trwy gyfrwng y Gymraeg.
B Ysgolion mewn ardal draddodiadol Gymraeg lle mae'r addysg ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg
C Ysgolion cyfrwng Saesneg lle dysgir trwy gyfrwng y Saesneg

- Mae nifer yr ysgolion ym mhob categori fel a ganlyn:

  - Ysgolion Penodedig Gymraeg = 5 Cynradd

- Ysgolion mewn Ardal Draddodiadol Gymraeg = 2 Cynradd
- Ysgolion cyfrwng Saesneg = 67 Cynradd
- Ysgolion Arbennig - 1
- Yn ychwanegol mae'r Awdurdod yn ariannu 2 ysgol feithrin cyfrwng Saesneg.

Bydd y Gymraeg yn cael ei dysgu yn unol â'r Cwricwlwm Cenedlaethol ym mhob ysgol.

Mae 5 ysgol gynradd penodedig Gymraeg o fewn yr Awdurdod. Yn yr ysgolion hyn, Cymraeg yw'r prif gyfrwng dysgu. Mae mwyafrif llethol y disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion hyn yn dod o gefndiroedd Saesneg eu hiaith. Mae'r disgyblion hyn yn cael eu trwytho yn yr iaith Gymraeg o'r dosbarth derbyn. Cyflwynir Saesneg ar ddechrau CA2. Asesir disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg yn CA1 a 2 ac asesir Saesneg yn CA2. Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol.

Yr ysgolion penodedig Gymraeg yw: Plas Coch; Min y Ddôl; Bodhyfryd; Bryn Tabor ac I D Hooson.

O fewn y Fwrdeistref Sirol mae dwy ysgol a leolir mewn ardal sy'n ffinio â Sir Ddinbych ac mae gan y ddwy ysgol y crynhoad uchaf o siaradwyr Cymraeg. Mae'r addysg Gymraeg a ddarperir yn adlewyrchu hyn, ac yn yr ysgolion hyn defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg fel cyfryngau dysgu ac fel ieithoedd swyddogol o fewn yr ysgol.

Yr ysgolion mewn ardaloedd traddodiadol Gymraeg yw: Llanarmon DC a Cynddelw, Glynceiriog.

Gweler Adran 12 a'r Targedau (Adran 28) am fanylion pellach ynghylch y ddarpariaeth gynradd.

- <u>ADDYSG UWCHRADD</u>

Darperir addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol benodedig sef Ysgol Morgan Llwyd.

Yn yr wyth ysgol uwchradd sy'n weddill, bydd y Gymraeg yn cael ei dysgu fel ail iaith i bob disgybl yn CA3 a CA4.

Rhoddir pwyslais mawr ar ddatblygu a defnyddio'r Gymraeg fel iaith naturiol, bob dydd a sicrhau naws ddwyieithog fel rhan annatod o'r Cwricwlwm Cymraeg.

Os yw'r Gymraeg i ffynnu, mae angen i blant a phobl ifanc ddatblygu ymdeimlad o berchnogaeth ar yr iaith a'i hystyried fel iaith fyw a bywiog yn y gymuned. Cynigir cyfarwyddyd i gynorthwyo ysgolion i nodi dulliau i hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig a'r hunaniaeth Gymreig fel rhan o ddatblygiad y cwriwcwlwm ym mhob pwnc ac wrth gynllunio cwricwlwm yr ysgol gyfan gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol.

9.2 Mae canran y disgyblion sydd wedi derbyn eu haddysg gynradd yn yr ysgolion penodedig Gymraeg ac yna wedi parhau ag addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg ers 1996 fel a ganlyn.

	1996	1997	1998	1999	2000	2001	2002	2003	2004	2005
% Trosglwyddo	95	91	87	88	92	94	96	97	96	97

Mae pob pwnc a gynigir yn Ysgol Morgan Llwyd yng Nghyfnod Allweddol 3 a 4 ac eithrio Saesneg yn cael ei addysgu a'i asesu drwy gyfrwng y Gymraeg i bob disgybl. Bydd pob disgybl yn dilyn Cymraeg fel iaith gyntaf drwy gydol Cyfnod Allweddol 3 a 4.

9.3 Rhoddir gwybod i rieni am gategorïau'r ysgolion fel y'u diffiniwyd yn yr adran hon mewn pedwar dull:-

- Gwybodaeth a ddarperir yn y llawlyfr 'Canllaw i Wasanaethau Addysg yn Wrecsam' sy'n cael ei lunio a'i ddiweddaru'n flynyddol gan yr Awdurdod;
- Prosbectysau'r ysgolion;
- Yn ystod ymholiadau a wneir gan rieni i'r Awdurdod am yr ysgolion unigol; a
- Gwybodaeth ar wefan y Cyngor (www.wrexham.gov.uk).

10 Y DDARPARIAETH BRESENNOL

10.1 Dengys y tabl isod y mathau o ysgolion, y cyfrwng dysgu a nifer yr ysgolion ym mhob categori:

Ysgolion	**Cyfrwng Dysgu***	**Nifer yr ysgolion**
Meithrin	Cymraeg Saesneg	0 2
Babanod	Cymraeg Saesneg	0 13
Iau	Cymraeg Saesneg	0 13
Cynradd	Cymraeg Cymraeg/Saesneg Saesneg	5 2 39
Uwchradd 11-16	Saesneg	8
Uwchradd 11-18	Cymraeg Saesneg	1 2
Ysgolion Arbennig	Cymraeg Saesneg	0 1
Unedau AAA Cynradd	Cymraeg Saesneg	0 0
Unedau AAA Uwchradd	Cymraeg Saesneg	0 0
Unedau Cyfeirio Disgyblion (Cynradd)	Cymraeg Saesneg	0 0
Unedau Cyfeirio Disgyblion (Uwchradd)	Cymraeg Saesneg	0 3

Os yw disgybl o ysgol cyfrwng Cymraeg yn mynychu un o'r tair uned cyfeirio disgyblion, bydd darpariaeth ar gyfer dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd dilyniant yn cael ei sicrhau o ran dysgu Cymraeg fel ail iaith hefyd.

10.2 Mae nifer o ddisgyblion yn mynychu ysgolion mewn awdurdodau cyfagos:

a) Mae Ysgol Dinas Brân, a leolir yn Sir Ddinbych, yn darparu lleoedd i ddisgyblion sy'n byw o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'r awdurdod wedi cydnabod y cyswllt traddodiadol rhwng Dinas Brân a nifer o ysgolion cynradd yn y Fwrdeistref Sirol gan gynnwys Ysgol Cynddelw a Llanarmon D.C. ac ar hyn o bryd mae'n darparu cludiant am ddim i'r disgyblion hynny sy'n gymwys yn ôl ei bolisi cludiant ysgol.

b) Mae Ysgol Uwchradd Castell Alun a leolir yn Sir y Fflint yn darparu lleoedd i nifer o ddisgyblion sy'n byw o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam, yn arbennig ardal Llai.

11 ADDYSG FEITHRIN CYFRWNG CYMRAEG

11.1 Mae polisi'r AALl mewn perthynas ag addysg cyn-ysgol fel a ganlyn:

- Mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i sicrhau lleoedd addysg gynnar o leiaf hanner amser i bob plentyn tair blwydd oed y mae ei rieni'n dymuno hynny. Dros y blynyddoedd mae AALl Wrecsam wedi dangos ymroddiad sylweddol tuag at addysg feithrin.

- Ar hyn o bryd mae lleoedd llawn amser am ddim yn y sector cynaledig i bob plentyn yn y mis Medi sy'n dilyn ei ben-blwydd yn bedair blwydd oed. Ers Medi 2004, mae gan bob plentyn yr hawl i addysg hanner-amser am ddim o ddechrau'r tymor sy'n dilyn pen-blwydd y plentyn yn dair oed.

- Mae polisi cludiant yr AALl mewn perthynas â phlant meithrin yn nodi nad oes cludiant am ddim ar gyfer unrhyw blentyn o oed meithrin oni bai bod AALl yn gosod plentyn sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig mewn meithrinfa ag adnoddau.

- Mae rhieni plant o bob ardal o'r fwrdeistref sirol yn gallu cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, efallai na fydd hi'n bosibl darparu lle yn yr ysgol o'u dewis bob amser. Pan fo gormod o rieni'n gwneud cais am addysg cyfrwng Cymraeg mewn un ysgol benodol, mae trefniadau'n bodoli ar gyfer cyflwyno rhieni i ysgol cyfrwng Cymraeg arall. Ar hyn o bryd daw hyn i'r amlwg fwyaf yn Ysgol Plas Coch. Mae penaethiaid Ysgol Plas Coch a Bodhyfryd yn gweithio gyda'r AALl i sicrhau y bodlonir pob rhiant sy'n dymuno cael mynediad addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant. Ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod yn cynnal ymgynghoriad am y broses o ddiwygio'r meini prawf derbyn ar gyfer ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg er mwyn lliniaru'r problemau penodol gyda gordanysgrifio yn Ysgol Plas Coch (gweler Targed 2.6).

- Mae gan yr awdurdod lleol chwe dosbarth meithrin rhan-amser. Drwy gydweithio'n agos â grwpiau Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM) yn nalgylch pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg mae'r AALl yn sicrhau bod lle ar gael i bob plentyn sydd ei angen (ond nid yn yr ysgol o'u dewis o angenrheidrwydd).

11.2 Mae Cydlynydd Rhanbarthol MYM wedi bod yn aelod o'r Bartneriaeth Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn Wrecsam er pan y sefydlwyd hi yn Nhachwedd 1998.

Mae amcan 3 o Gynllun Datblygu Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar Wrecsam yn nodi y dylid rhoi sylw arbennig i ddatblygu a chynnal darpariaeth gofal plant yn yr iaith Gymraeg pan fo galw lleol amdano.

Mewn ymateb i ofynion Hawl i Addysg Gynnar ceir darpariaeth i bob plentyn y mae ei rieni'n dymuno hynny ers mis Medi 2004. Ceir darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym Min y Ddôl a Bodhyfryd yng nghyfnod 1 o'r rhaglen beilot a lansiwyd ym mis Ionawr 2003. O fis Ionawr 2005 bydd y ddarpariaeth ganlynol yn bodoli:

- Sector a gynhelir - 5 ysgol, Bodhyfryd, Cynddelw, Min y Ddôl, Llanarmon DC, I D Hooson gyda 72 lle.

- Sector gwirfoddol - Cylch Meithrin Stryd yr Allt a Chylch Meithrin Coedpoeth gyda 48 lle.

11.3 Lleolir yr holl ddosbarthiadau meithrin a gynhelir gan yr AALl mewn ysgolion. Mae'r rhan fwyaf o blant sy'n derbyn addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn cael eu cludo i'r ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf gan eu rhieni. Fodd bynnag, mae gan MYM grwpiau mewn cymunedau lleol.

11.4 Derbyn Plant Meithrin i Ysgolion Cyfrwng Cymraeg: 2003 i 2005

Dengys y tabl canlynol y nifer a dderbyniwyd i'r ddarpariaeth feithrin yn y pum ysgol penodedig Gymraeg yn Wrecsam:

Ysgol	**Medi 03**	**Medi 04**	**Medi 05**
Ysgol Min y Ddôl, Cefn Mawr	7	11	4
Ysgol Bryn Tabor, Coedpoeth	30	25	23
Ysgol Hooson, Rhos	21	21	27
Ysgol Bodhyfryd, Wrecsam	43	37	48
Ysgol Plas Coch	30	30	30
Cyfanswm	**131**	**124**	**132**

Amcangyfrifir y bydd 92% o'r disgyblion sy'n derbyn addysg feithrin cyfrwng Cymraeg yn y pum ysgol a restrir uchod yn derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn y dosbarth derbyn.

Mae'r ffigwr hwn yn seiliedig ar wybodaeth am dderbyniadau i ddosbarthiadau derbyn ym mis Medi 2004 a 2005.

11.5 Mae'r Sir wedi sefydlu darpariaeth feithrin ag adnoddau mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg (Ysgol Min y Ddôl) erbyn hyn ac yn parhau i ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu canolig yn Ysgol Bodhyfryd.

Pan fo angen cefnogaeth ddwyieithog, gellir darparu hyn ar ffurf athrawon cefnogi ardal sy'n siarad Cymraeg (Gwasanaeth Anghenion Arbennig). Byddai raid trafod cefnogaeth mewn meysydd mwy arbenigol gyda siaradwyr Cymraeg o awdurdodau lleol cyfagos.

11.6 Am wybodaeth ynghylch grwpiau meithrin sy'n gysylltiedig ag ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ym mhob dalgylch gweler Atodiad 03. Fel rheol nid yw'r grwpiau hyn wedi derbyn gormod o geisiadau.

Ni chyllidir unrhyw ddarpariaeth sector gwirfoddol gan y Bartneriaeth Datblygu Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar yn Wrecsam gan mai darpariaeth yn y sector a gynhelir yn unig sydd yn y cynllun.

Nid yw'r Sir yn darparu Canolfan Blynyddoedd Cynnar ddwyieithog ar hyn o bryd. Darperir gofal parhaus drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn ysgolion Bodhyfryd, Plas Coch, I D Hooson, Min y Ddôl ac ar safle gerllaw Ysgol Bryn Tabor yng Nghoedpoeth.

Bu problemau wrth geisio sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion yn ardal Gwersyllt. Bydd yr adolygiad o'r meini prawf derbyn yn mynd i'r afael â'r problemau hyn (gweler Targed 2).

Mae copïau o'r Cynllun Datblygu Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar ar gael i edrych arnynt yn holl brif lyfrgelloedd y Fwrdeistref Sirol a chan y Ganolfan Gwybodaeth Plant yn Llyfrgell a Chanolfan Gelf Wrecsam.

12 YSGOLION CYNRADD AC ADDYSG GYNRADD

12.1 Mae gan Wrecsam saith ysgol gynradd lle y defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng dysgu.

Ysgolion
Ysgol Bodhyfryd, Ffordd Brynycabanau, Wrecsam LL13 7DA
Ysgol Bryn Tabor, Heol Maelor, Coedpoeth, Wrecsam, LL11 3RU
Ysgol Min y Ddôl, Lôn Plas Kynnason, Cefn Mawr, Wrecsam, LL14 3AT
Ysgol Hooson, Pentredwr, Rhosllannerchrugog, LL14 1DD
Ysgol Plas Coch, Lôn Stansty, Wrecsam, LL11 2BU
Ysgol Cynddelw, Glynceiriog, Ffordd Newydd, Glyn Ceiriog, Llangollen, LL20 7HH
Ysgol Llanarmon DC, Llanarmon Dyffryn Ceiriog, ger Llangollen, LL20 7LB

Am ddiffiniadau a chategorïau ieithyddol gweler Adran 9.1.

12.2 Nid oes strwythur penodol ar waith ar hyn o bryd i asesu cynnydd disgyblion o ran eu sgiliau dwyieithog ar draws y cwricwlwm. Mae cronfa ddata'r AALl yn galluogi dadansoddiad o gyrhaeddiad disgyblion o ran y Gymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith a Saesneg yn flynyddol.

Mae Fframwaith Arolygu Cyffredinol Estyn yn ymdrin â rhai materion hyfedredd dwyieithog ac mae'r AALl wedi paratoi dull hunan-arfarnu i ysgolion arfarnu a monitro'r agwedd hon fel proses barhaus. Mae'r AALl hefyd yn dadansoddi pob adroddiad Estyn er mwyn arfarnu'r canlyniadau sy'n ymwneud â'r agwedd hon.

12.3 Gwneir yr holl weithgareddau asesu athrawon (AA) yn y Gymraeg yn y pum ysgol cyfrwng Cymraeg. Gwneir asesiadau athrawon yn ddwyieithog yn y ddwy ysgol sy'n naturiol ddwyieithog ac sy'n adlewyrchu natur ieithyddol y disgyblion yno.

12.4 Ar hyn o bryd nid oes gan yr AALl ddull ffurfiol ar gyfer hwyrddyfodiaid i'r cyfnod cynradd. Mae'r niferoedd yn isel iawn ac mae'r Gwasanaeth Ymgynghorol Cymraeg

(Athrawon Bro) yn cynorthwyo ysgolion i integreiddio disgyblion pan fo galw am hynny.

12.5 Ar y cyfan, mae gan yr Awdurdod fwy na digon o le i fodloni'r angen am addysg cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod cynradd ac uwchradd. Fodd bynnag, bu'r galw yn fwy na'r lleoedd ar gael yn Ysgol Plas Coch ers sawl blwyddyn. Mae'r Awdurdod yn chwarae rôl ragweithiol ar y cyd â chefnogaeth gan benaethiaid er mwyn sicrhau bod rhieni'n cael cynnig lle mewn ysgol cyfrwng Cymraeg arall o fewn yr Awdurdod. Cynhelir cyfarfodydd arbennig ar gyfer rhieni yn yr ysgolion eraill yn ystod y broses dderbyn.

Mae tair ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn derbyn gormod o geisiadau am leoedd ar hyn o bryd tra bod y lleoedd dros ben yn canolbwyntio ar ddwy ysgol arall (Min y Ddôl ac Ysgol Bodhyfryd).

Bydd y camau sydd ar y gorwel i ad-drefnu darpariaeth yr ysgolion yn ymdrin â'r ceisiadau gormodol mewn un ysgol (Bryn Tabor) tra bod cynigion wedi eu cymeradwyo ar gyfer Ysgol I D Hooson i ad-drefnu'r ddarpariaeth gynradd yn ardal Rhosllannerchrugog.

Awgryma rhagamcaniadau ar gyfer yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg (2005-2009) y bydd cynnydd cyffredinol o 3% yn niferoedd y sector (29 disgybl). Fodd bynnag er mwyn canfod gwybodaeth fanylach am ddymuniadau rhieni bydd y Sir yn cynnal arolwg ar draws y Sir i fesur y galw am Addysg Gyfrwng Cymraeg ac yn llunio cynllun gweithredu sy'n ymateb i'r canfyddiadau. (Gweler targed 2.1).

12.6 Mae'r lle sydd ar gael yn y saith ysgol uchod wedi ei amlinellu yn y tabl isod. Mae'r ffigurau hyn yn ymwneud â mis Medi 2005.

YSGOL	LLE	DIFFYG LLE/LLE DROS BEN CYFWERTH Â LLAWN AMSER
Ysgol Bodhyfryd, Wrecsam	417	127
Ysgol Bryn Tabor, Coedpoeth	180	-10.5
Ysgol Min Y Ddôl, Cefn Mawr	140	95
Ysgol Hooson, Rhosllannerchrugog	233	34.5
Ysgol Plas Coch, Wrecsam	196	-22
Ysgol Cynddelw, Glynceiriog	152	56
Ysgol Llanarmon DC	53	32

12.7 Mae mwy o ddisgyblion wedi dewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Cynddelw, Glynceiriog. Mae'r canlynol yn ddadansoddiad o nifer y plant a dderbyniwyd i'r dosbarthiadau derbyn (cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg) o 1998 hyd 2005. Sefydlwyd y dosbarth babanod cyfrwng Cymraeg ym mis Ebrill 1999:-

	Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Saesneg
1998	4	10
1999	5	10
2000	6	8
2001	11	6
2002	8	8
2003	6	4
2004	7	4
2005	7	7

12.8 Adeiladwyd estyniad yn Ysgol Plas Coch yn 2002 ac ar hyn o bryd mae prosiect i aildrefnu'r ddarpariaeth gynradd yng Nghoedpoeth newydd ddechrau. Cwblheir hyn yn 2006 a bydd yn darparu mwy o le yn Ysgol Bryn Tabor.

Er nad yw'r niferoedd wedi bod yn cynyddu yn Ysgol I D Hooson, Rhos (gweler Targed 2.2) bydd y cynlluniau presennol, a fu'n destun ymgynghoriad â'r gymuned gyfan ac a gymeradwywyd yn Rhagfyr 2005, yn arwain at adeiladu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhosllannerchrugog fel cartref i Ysgol I D Hooson. Bydd hyn yn lliniaru'r problemau presennol a wyneba'r ysgol o ran adeiladau dros dro.

13 YSGOLION UWCHRADD AC ADDYSG UWCHRADD, GAN GYNNWYS Y GWASANAETH GYRFAOEDD A'R GWASANAETHAU IEUENCTID

13.1 Mae'r AALl yn cynnal un ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg sef Ysgol Morgan Llwyd gyda 1050 o leoedd ac 805 ar y gofrestr gan gynnwys dros 100 yn y chweched dosbarth.

13.2 Mae Ysgol Morgan Llwyd wedi cynyddu mewn maint o 643 o ddisgyblion yn 1996.

13.3 O ganlyniad i gynnydd yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg symudodd yr ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg i adeilad newydd gyda lle i 1050 o ddisgyblion ym Medi 2000.

13.4 Yn Ysgol Morgan Llwyd mae 16 o bynciau TGAU yn cael eu dysgu a'u hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn Lefel A mae ugain o bynciau'n cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â thri chwrs galwedigaethol. Gweler Atodiad 7 hefyd.

13.5 Mae Ysgol Morgan Llwyd yn darparu Lefel A Gwleidyddiaeth drwy ddefnyddio fideo-gynadledda mewn partneriaeth ag Ysgol Maes Garmon ac mae hyn yn cael ei hymestyn i ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill ledled Cymru ar hyn o bryd.

13.6 Mae ychydig o hwyrddyfodiaid yn dechrau ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn 11 mlwydd oed, ac mae'r AALl wedi cefnogi'r ysgol er mwyn galluogi'r disgyblion hynny i gael hyfforddiant pellach yn y Gymraeg cyn diwedd blwyddyn 6 yn yr ysgol gynradd ac yng nghyfnod cynnar eu haddysg ym mlwyddyn 7. Dymuna'r Awdurdod

ymestyn ei ddarpariaeth yn 2006 ac mae'n gweithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r ysgol ar hyn o bryd i weithredu prosiect trochi'r Bwrdd (gweler Targed 4).

13.7 Mae wyth ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yn y Sir. Mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu i bob disgybl yng Nghyfnod Allweddol 3 a 4. Yng Nghyfnod Allweddol 4 mae gan yr holl ddisgyblion un ai gyfle i ddilyn y cwrs llawn neu'r cwrs byr. Cyfeiriwch at Adran 8.1 am ganran y disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 sy'n sefyll TGAU Cymraeg ail iaith.

13.8 Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn rhan annatod o'r ddau gyfnod allweddol yn yr holl ysgolion uwchradd a nododd adroddiadau arolygiadau diweddar fod arferion da mewn nifer o ysgolion. Gweler Targed 4.5 (Adran 28).

13.9 Mae Gyrfa Cymru yn chwarae rhan weithredol yn yr ysgolion uwchradd. Trefnir lleoliadau profiad gwaith gan yr ysgolion ond mae gan Hyfforddiant Gwynedd gytundeb gyda Gyrfa Cymru i archwilio'r profiad gwaith. Mae lleoliadau dwyieithog a lleoliadau cyfrwng Cymraeg ar gael i fyfyrwyr sy'n gofyn am y ddarpariaeth honno.

13.10 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn darparu gwasanaeth ieuenctid cyfoes gyda chyfuniad o ganolfannau gweithgareddau traddodiadol ynghyd ag ystod o wasanaethau arbenigol yn benodol ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cymdeithasol brys. Pan fo pobl ifanc angen gwasanaethau arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg mae gennym bum aelod o staff sy'n siarad Cymraeg a all gynnig y gwasanaeth. Yn ychwanegol pan fo canolfannau'n gweithredu o fewn cymunedau Cymraeg eu hiaith, y Gymraeg yw prif iaith y clwb e.e. Clwb Ieuenctid Llanarmon.

13.11 Mae'r Awdurdod yn derbyn nifer bach o ddisgyblion o ardal Llangollen. Bydd y disgyblion hyn yn mynychu Ysgol Morgan Llwyd. Anogir rhieni i gysylltu â Chyngor Sir Ddinbych i geisio cludiant am ddim. Gweler Adran 10 hefyd.

14 ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG (AAA)

14.1 Gweinyddir darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig drwy Wasanaeth Cefnogi Dysgu'r AALl. Cynnwys hyn nifer o wahanol feysydd gwasanaeth:-

(i) Gwasanaeth Seicoleg Addysg
(ii) Gwasanaeth Anghenion Arbennig
(iii) Gwasanaeth Synhwyraidd
(iv) Tîm Datganiadau/Asesu Statudol

Cynigir yr holl broses o lunio datganiad AAA, gan gynnwys yr holl ddogfennau a gyflwynir i rieni/gwarcheidwaid, yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog ar ddechrau'r broses asesu statudol. Mae'r tri swyddog datganiadau AAA yn gallu siarad Cymraeg, ac mae un yn siaradwr Cymraeg rhugl.

Rhoddir y cyfle i rieni disgyblion sy'n derbyn asesiad statudol AAA fynegi eu dewis iaith ar gyfer yr asesiad a'r dewis iaith ar gyfer y datganiad AAA terfynol. Pan fo rhieni'n dymuno derbyn cefnogaeth y Cynllun Partneriaeth Rhieni, a weithredir drwy Cyngor ar Bopeth, mae cefnogaeth cyfrwng Cymraeg ar gael a chynhyrchir yr holl ddeunyddiau'n ddwyieithog.

14.2 Mae darpariaeth a gwasanaethau AAA ar gael yn newis iaith y plentyn, p'un ai yn y Gymraeg, y Saesneg neu'n ddwyieithog. Mae'r AALl yn gweithredu'n unol â'r egwyddor sylfaenol y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Wrth ymdrin â phlant a'u rhieni mae'r AALl yn bodloni anghenion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac yn cadw at y polisïau a geir yng Nghynllun Addysg Gymraeg yr AALl a'r Cynllun Iaith.

Cymerir camau priodol i ganfod iaith aelwyd ac ysgol y plentyn cyn gynted â phosibl yn y broses o ymdrin â phlentyn AAA ac mae gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ar gael i rieni o'r cychwyn cyntaf.

Wrth asesu plentyn ag AAA, sicrheir bod pawb sy'n ymwneud â'r broses yn ymwybodol o anghenion ieithyddol y plentyn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion Cymraeg eu hiaith sy'n 16 a hŷn yn ystyried iaith aelwyd ac ysgol y disgybl/myfyriwr ac anelir at barhau â'r ddarpariaeth hon fel mater o arfer addysgol da.

Mewn rhai achosion mae adnabod AAA plentyn yn gynnar yn ddibynnol ar sensitifrwydd iaith ac mae gan rieni fynediad at wybodaeth, cyngor a chefnogaeth yn eu dewis iaith. Mae Cefnogaeth Partneriaeth Rhieni a threfniadau cymrodedd/cyfryngiad lleol ar gael i rieni sy'n siarad Cymraeg neu Saesneg.

14.3 Mae'r AALl yn gweithredu system o ddarpariaeth sydd ag adnoddau yn yr holl ysgolion uwchradd a nifer o ysgolion babanod, iau a chynradd. Anogir disgyblion ag AAA i integreiddio â gwersi yn y prif ffrwd fel bo'n briodol. Ar hyn o bryd mae'r AALl yn adolygu ei Bolisi a Strategaeth Cynhwysiad a fydd yn arwain at fwy fyth o addysgu ac arfer cynhwysol.

14.4 Mae gan Ysgol Morgan Llwyd yr adnoddau i ddiwallu anghenion y disgyblion sy'n siarad Cymraeg sydd ag ystod o anghenion dysgu gan gynnwys anawsterau dysgu penodol ac anawsterau dysgu cymedrol. Mae gan yr ysgol un disgybl ag anawsterau dysgu difrifol.

Agorwyd meithrinfa sydd ag adnoddau ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg o oed meithrin ym mis Medi 2003. Lleolir y feithrinfa hon yn Ysgol Min-y-Ddôl, Cefn Mawr.

Mae gan nifer o ysgolion babanod/iau ddarpariaeth hefyd gan gynnwys ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag AAA yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg prif ffrwd. Mae cefnogaeth ddwyieithog ar gael trwy'r Gwasanaeth Anghenion Arbennig.

Mae therapi iaith a lleferydd a ffisiotherapi ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg. Penododd yr AALl seicolegydd addysg sy'n siarad Cymraeg yn ddiweddar.

14.5 Pan fo angen i'r AALl osod disgyblion mewn lleoliad preswyl/y tu allan i'r sir, gwneir pob ymdrech iddynt fod mewn awdurdod lleol Cymraeg cyfagos. Gosodir disgyblion â salwch sbectrwm awtistig yn Ysgol Plas Brondyffryn (Sir Ddinbych) lle darperir o leiaf rhan o addysg y disgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg.

14.6 Mae'r AALl yn cyflogi nifer o gynorthwywyr cefnogi dysgu (CCD) sy'n rhugl ddwyieithog. Mae'r holl ysgolion cyfrwng Cymraeg (cynradd ac uwchradd) yn

cyflogi CCD sy'n siarad Cymraeg. Ar hyn o bryd nid oes hyfforddiant dwyieithog penodol ar gael er mwyn recriwtio CCD sy'n rhugl ddwyieithog.

14.7 Mae disgyblion ag AAA yn derbyn cefnogaeth ar gyfer Cymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith yn eu hysgolion cynradd prif ffrwd lleol gan y Tîm Ymgynghorol Cymraeg.

14.8 Mae gan yr AALl ddarpariaeth ddwyieithog o ran lleoliadau, deunyddiau a gwasanaethau therapi.

Mae'r AALl wedi ariannu athrawon o ysgolion cyfrwng Cymraeg i ddatblygu deunyddiau AAA yn y Gymraeg.

14.9 Disgyblion â Datganiadau

Ysgol	Datganiadau	% cyfanswm y boblogaeth
Ysgol Min y Ddôl**	0	-
Ysgol Bryn Tabor	1	0.45%
Ysgol Hooson	5	2.03%
Ysgol Bodhyfryd*	3	0.33%
Ysgol Plas Coch	3	1.27%
Ysgol Morgan Llwyd*	24	3.28%

* yn cynnwys darpariaeth ag adnoddau
** yn cynnwys darpariaeth ag adnoddau (meithrin) yn unol â datblygiad Hawl Gynnar

14.10 Ar hyn o bryd nid oes disgyblion â datganiadau yn Llanarmon. Mae canran y disgyblion sydd â datganiadau yng Nghynddelw yn 2.32%.

Yn gyffredinol mae canran y disgyblion sydd â datganiad yn y sector cyfrwng Saesneg yn 5.23%.

14.11 Yn gyffredinol, mae'r gwasanaethau sydd ar gael yn ddwyieithog i ddisgyblion sy'n 14+ yr un fath â'r rhai sy'n iau na 14 o ran mynediad at gyngor a chefnogaeth ddwyieithog. Mae cyngor gyrfaol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ond mae lleoliadau gwaith dwyieithog yn ddibynnol ar amgylchiadau unigol.

14.12 Mae'r unig Gytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) o ran iechyd yn ymwneud â darpariaeth Therapi iaith a lleferydd. Mae cefnogaeth ddwyieithog ar gael ond ni chafodd ei chynnwys yn benodol yn y CLG. Gall disgyblion dwyieithog ddewis cynrychiolydd Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n siarad Cymraeg, ond mae hyn yn dibynnu a oes rhywun ar gael. Nid oes CLG rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg.

15 Y GWASANAETH ATHRAWON BRO A GWASANAETH YMGYNGHOROL YR AALl

15.1 I raddau helaeth diffinnir rôl Tîm Ymgynghorol y Gymraeg a'r ffiniau y mae disgwyl iddo weithio oddi fewn iddynt gan ofynion cymorth grant Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Cynllun Addysg Cymraeg. Rhaid ystyried hefyd y prif feysydd a ddiffinnir gan Gynllun Addysg Sengl yr AALl.

- Mae Tîm Ymgynghorol y Gymraeg (Athrawon Bro) yn cynnwys cydlynydd tîm, dwy athrawes ymgynghorol llawn amser ac un athrawes ymgynghorol rhan-amser (0.6) sy'n gweithio gyda'r ysgolion penodedig Gymraeg a'r ysgolion mewn ardal draddodiadol Gymraeg. (Cynddelw yng Nglynceiriog a Llanarmon D.C.) Mae'r arian ar gyfer cyflogau Tîm Ymgynghorol y Gymraeg ar ffurf grant gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

- Mae'r Tîm yn darparu gwasanaeth ar gyfer ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig o fewn yr awdurdod. Trefnir a darperir HMS gan y tîm a darparwyr allanol. Mae cefnogaeth yn y dosbarth ar gael ar gyfer athrawon sydd wedi bod ar gyrsiau HMS a hefyd i'r rheiny sy'n bwriadu manteisio ar y cyrsiau yn y dyfodol. Am fanylion pellach am y ddarpariaeth HMS gweler Atodiad 4.

- Mae pob aelod o'r Tîm Ymgynghorol yn gyfrifol am grŵp neu 'deulu' o ysgolion o fewn ardal benodedig. Penderfynir ar lefel y gefnogaeth a gynigir yn dilyn trafodaethau gyda phenaethiaid ac arweinwyr pwnc pob ysgol. Bydd ysgolion neu gyfnodau allweddol yn cael eu targedu yn ôl anghenion ieithyddol yr athro a/ neu gyrhaeddiad / diffyg cyrhaeddiad y disgyblion.

- Mae canolfan weinyddol y gwasanaeth yng Nghanolfan Erlas, Ffordd Bryn Estyn, Wrecsam, lle y cynhelir y mwyafrif o'r cyrsiau Cymraeg Ail Iaith, a lle y lleolir y Ganolfan Adnoddau. Gall athrawon bori drwy'r adnoddau a cheisio cyngor defnyddiol ar ddefnydd ac addasrwydd yr adnoddau sydd ar gael, ac ar yr un pryd gael y wybodaeth ddiweddaraf am adnoddau newydd.

ADNODDAU DYSGU CYMRAEG

- Mae Tîm Ymgynghorol y Gymraeg yn creu cyfoeth helaeth o ddeunyddiau addysgu i'w defnyddio yn y dosbarth. Cynnwys yr adnoddau hyn becynnau dysgu ac addysgu thematig, posteri, taflenni gwaith a gemau lliwgar yn ogystal â deunydd darllen. Mae'r tîm yn gwneud defnydd da o adnoddau TGCh sy'n hyrwyddo gallu yn y Gymraeg. Mae'r tîm yn cydweithio â'r Athro Ymgynghorol ar gyfer TGCh er mwyn creu'r meddalwedd addas i'w ddefnyddio ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol.

- Mae'r AALl yn parhau i ddarparu cefnogaeth Swyddogion Gwella Ysgolion (Mae'r ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cydweithio'n agos ag uwch swyddogion sy'n siarad Cymraeg) ac Ymgynghorwyr Dysgu ac Addysgu ar gyfer y cwricwlwm craidd a sgiliau allweddol i'r holl ysgolion. Arweiniodd hyn at unoli'r ddarpariaeth o ran cyngor a chefnogaeth ar gyfer Cymraeg fel Iaith Gyntaf ac ail iaith o dan arweinyddiaeth yr Ymgynghorydd Addysgu a Dysgu ar gyfer y Gymraeg.

- Cynigiwyd cefnogaeth ddirprwyedig ar gyfer y pynciau nad ydynt yn bynciau craidd megis celf, cerddoriaeth, technoleg dylunio, hanes, daearyddiaeth, ieithoedd tramor modern ac addysg gorfforol a bu i'r mwyafrif helaeth gydsynio â phecyn yr awdurdod. Y nod oedd paratoi dull o weithredu hyblyg a radical a fyddai â'r gallu i ymateb i anghenion amrywiol ar draws y grŵp oedran gan gynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg. Cynigiwyd y pecyn hwn i'w ddirprwyo eto ym mis Ebrill 2005 ac mae mwyafrif yr ysgolion wedi ymglymu wrth y gwasanaeth eto.

CYRSIAU PRESWYL

- Trefnir cyrsiau preswyl yn flynyddol yng Nglan-llyn, ger Y Bala ac yng Nghanolfan y Mileniwm Caerdydd ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd (ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg).

- Mae'r Tîm Ymgynghorol hefyd yn arwain y cyrsiau hyn, sydd am dri diwrnod fel arfer.

- Mae Cydlynydd Tîm Ymgynghorol y Gymraeg hefyd yn mynychu cwrs blynyddoedd 12 / 13 yn flynyddol fel darparwraig.

16 CANOLFANNAU IAITH

Nid oes gan yr awdurdod unrhyw ganolfannau iaith. Gweler Adran 12.4 a 13.5 am fanylion ynghylch y ddarpariaeth ar gyfer hwyrddyfodiaid.

17 GWYBODAETH I RIENI YNGHYLCH ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG A DWYIEITHOG

17.1 Mae rhieni'n derbyn Canllaw i Wasanaethau Addysg Wrecsam sy'n gynhwysfawr. Mae'r canllaw'n gwahaniaethu rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg penodedig ac eraill sy'n addysgu yn bennaf yn y Saesneg. Mae'r canllaw ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae swyddogion adrannol yn gallu ymdrin ag ymholiadau rhieni ynghylch anghenion arbennig yn y Gymraeg.

- Darperir yr holl wybodaeth berthnasol yn y canllaw hwn yn ddwyieithog.

- Mae swyddogion o'r sir ar gael i ateb ymholiadau rhieni drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys ymholiadau ynghylch anghenion arbennig.

17.2 Mae swyddog ar gael i ddarparu gwasanaeth cyflafaredd/cymrodedd i rieni drwy gyfrwng y Gymraeg.

18 STAFFIO A RECRIWTIO

18.1 Mae cyfarwyddwyr a phrif swyddogion y Cyngor yn archwilio anghenion y gwasanaethau ac yn penderfynu ar flaenoriaethau ar gyfer recriwtio siaradwyr Cymraeg er mwyn bodloni gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg. Wrth wneud hynny byddant yn ystyried y sefyllfaoedd lle mae recriwtio swyddogion sy'n siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol er mwyn darparu gwasanaeth sydd mor gyflawn â phosibl. Pan ystyrir bod gallu ieithyddol yn hanfodol neu'n ddymunol, bydd hyn yn cael ei nodi yn yr hysbyseb swydd.

18.2 Mae achlysuron pan gafodd y Gyfarwyddiaeth broblemau denu staff sy'n siarad Cymraeg. Yn yr amgylchiadau hyn, yr arfer yw un ai:

- Penodi i'r swydd ar yr amod bod rhaid dysgu Cymraeg i safon benodol o fewn amser penodedig gyda chefnogaeth y Cyngor;

neu

- Aildrefnu'r gwasanaeth neu ganfod trefniadau eraill i ddarparu'r sgil yn y gweithle drwy ddarparu sgiliau ieithyddol y staff presennol.

18.3 Mae'r Adran Hyfforddiant Corfforaethol yn darparu cyrsiau hyfforddi mewnol ar gyfer y rhai sy'n dysgu Cymraeg.

19 ADDYSG GYMUNEDOL A SGILIAU SYLFAENOL

19.1 Mae'r AALl yn ariannu addysg gymunedol fel rhan o gyllid dirprwyedig i'r 9 ysgol uwchradd bresennol. Dosberthir arian addysg oedolion i ysgolion, a bydd Coleg Addysg Bellach Iâl yn derbyn rhyddfraint. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys dosbarthiadau dysgu Cymraeg.

19.2 Mae'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion wedi ei strwythuro mewn 8 consortiwm ar draws Cymru. Mae'r consortiwm lleol yn cynnwys ardal yr hen sir Clwyd. Mae'r ddarpariaeth leol yn cael ei chydlynu gan y consortiwm, ac mae "Cymraeg yn y Gweithle" Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cael ei ddarparu gan Goleg Addysg Bellach Iâl.

19.3
- Mae'r blaengareddau o fewn y strategaeth i Gymru gyfan ar gael un ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg
- Cynhyrchir yr holl ddeunyddiau Sgiliau Sylfaenol yn ddwyieithog
- Mae'r Athro Llythrennedd Ymgynghorol yn Wrecsam yn siarad Cymraeg
- Mae holl gyhoeddiadau y Tîm Sgiliau Sylfaenol yn ddwyieithog
- Mae Dirprwy Gyfarwyddwr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol Cymru sydd hefyd yn Swyddog Cyswllt Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol yr AALl yn siarad Cymraeg.

19.4 Datblygiadau

- Mae'r ysgolion yn defnyddio prawf darllen dwyieithog a ddatblygwyd gan Dîm Seicoleg Addysg Abertawe. Byddant hefyd yn gweithio ar brawf mathemateg dwyieithog.
- Mae gwir angen i ddatblygu mwy o ddeunyddiau darllen yn y Gymraeg er mwyn cefnogi darllen mewn grŵp a darllen dan arweiniad.

Mae pob ysgol wedi derbyn hyfforddiant sylfaenol a darparwyd yr adnoddau gan yr AALl.

Mae un ysgol (Min y Ddôl) yn derbyn cyllid ychwanegol drwy'r cynllun Cynorthwywyr Cefnogi Dosbarth. O ganlyniad mae grŵp o ddisgyblion Bl.3 yn derbyn cefnogaeth ychwanegol ar gyfer darllen Cymraeg ddwywaith yr wythnos.

19.5 Busnes yn y Gymuned

Mae gwirfoddolwyr – sydd wedi ymddeol o'r gweithle – yn gweithio mewn tair ysgol cyfrwng Cymraeg i gefnogi sgiliau darllen disgyblion. Derbyniodd y gwirfoddolwyr hyn hyfforddiant gan yr AALl.

19.6 Canllaw ynghylch Parhad a Chynnydd mewn Llythrennedd a Rhifedd

Lluniwyd y ddogfen hon gan grŵp o athrawon a swyddogion yr AALl, ac fe'i cyfieithwyd i'r Gymraeg ar gyfer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg.

19.7 Arweinwyr Pwnc Effeithiol – Llythrennedd a Rhifedd

Mae cydweithwyr o'r ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi mynychu'r cyrsiau hyfforddi a oedd yn cynnwys sesiynau ynghylch dynodi grwpiau disgyblion sy'n tan-gyrraedd/tangyflawni a datblygu rhaglenni cefnogi ar eu cyfer.

19.8 Marc Ansawdd Cynradd / Uwchradd

Mae pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg a'r ddwy ysgol mewn ardal draddodiadol Gymraeg wedi llwyddo i ennill y marc ansawdd hwn sydd â'r nod o gefnogi ysgolion i godi safonau sgiliau sylfaenol.

20 HYFFORDDIANT A GWASANAETHAU AR GYFER LLYWODRAETHWYR YSGOL

20.1

- Mae gwasanaeth y Sir i lywodraethwyr yn cynnwys cefnogaeth a hyfforddiant cyffredinol. Mae'r ddwy elfen ar gael yn y Gymraeg. Mae darpariaeth a chyrsiau dwyieithog hefyd ar gael. Ymdrinnir ag ymholiadau ffôn ac e-bost a chyfathrebiadau ysgrifenedig yn Gymraeg neu yn Saesneg. Nid yw Wrecsam yn darparu cefnogaeth weinyddol/clercaidd i gyrff llywodraethol.

- Mae dogfennaeth a gylchredir i ysgolion yn Gymraeg ac yn Saesneg.

21 DARPARIAETH ÔL-16

21.1 Mae Ysgol Morgan Llwyd yn ysgol benodedig Gymraeg 11-18 ac mae'n cynnig ystod o gyrsiau academaidd a galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg. Cynigir Cymraeg fel ail iaith hyd at Lefel Uwch mewn dwy ysgol uwchradd 11-18 arall. Mae Coleg Iâl hefyd yn cynnig Cymraeg, fel iaith gyntaf ar gyfer lefel U ac UG.

21.2 Ceir darpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag AAA yn Ysgol Morgan Llwyd. Mae'r ddarpariaeth hon yn cynnwys cyrsiau galwedigaethol yn bennaf a'r gallu i ailsefyll TGAU yn y pynciau craidd sef Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Cynigir y ddarpariaeth hon drwy gyfrwng y Gymraeg. Cynigir y ddarpariaeth alwedigaethol ar lefel Sylfaenol a Chanolradd. Mae pob un o'r gwasanaethau sydd ar gael i ddisgyblion AAA fel yr amlinellir yn adran 14 hefyd ar gael i ddisgyblion yn y sector ôl-16. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogaeth a chyfarwyddyd i ddisgyblion sydd ag AAA yn Ysgol Morgan Llwyd yn naturiol yn parhau i'r chweched dosbarth hefyd.

21.3 Mae Ysgol Morgan Llwyd yn cynnig cyrsiau galwedigaethol mewn tri maes ar lefel Sylfaenol a Chanolradd drwy gyfrwng y Gymraeg. Maent fel a ganlyn:

- Astudiaethau busnes a TG
- Gofal Iechyd a Chymdeithasol
- Peirianneg

Cwmpesir holl ofynion y sgiliau allweddol drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae Coleg Iâl yn cynnig diploma dwyieithog mewn Plant ac Addysg (Lefel 3).

21.4 Mae'r Rhwydwaith 14-19 a sefydlwyd yn ddiweddar yn cynnwys cynrychiolaeth o'r sector cyfrwng Cymraeg er mwyn i'w safbwyntiau fod yn rhan annatod o'r datblygiadau strategol yn y sector hwn o'r Awdurdod. Yn dilyn y datblygiadau a gyflwynwyd gan ELWa o ran mapio darpariaeth, sicrhau darpariaeth effeithlon a mwy o gydweithrediad, mae Ysgol Morgan Llwyd yn cydweithio'n agos â darparwyr eraill yn Wrecsam ac, yn wir, y tu hwnt i Wrecsam i wella'r ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag ysgolion ym Mhowys, Sir Ddinbych, Fflint a Gwynedd i ddarparu cyrsiau Lefel U ac UG cyfrwng Cymraeg ar y cyd. Mae Ysgol Morgan Llwyd yn cynnig y Fagloriaeth Gymreig drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd.

21.5 Bydd y gwasanaethau a'r gweithgareddau cefnogi a gynigir gan yr Awdurdod ar gael i'r sector ôl-16 hefyd a byddant ar gael yn y sefydliadau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg.

22 CYSYLLTIADAU AG AWDURDODAU A MUDIADAU ERAILL

22.1 Prif ffocws y Gwasanaeth Gwella Ysgol yw codi safonau. Mae Tîm Ymgynghorol y Gymraeg yn gyfrifol am ddysgu ac addysgu Cymraeg ac mae'n gweithio mewn ysgolion dan gyfarwyddyd uwch swyddog ar draws yr holl gyfnodau.

- Gwneir defnydd llawn o ddarparwyr allanol mewn sesiynau methodoleg er mwyn sicrhau arbenigedd ehangach a sicrhau amrywiaeth o ddarpariaeth hefyd.

- Mae'r Tîm Ymgynghorol yn gyfrifol am drefnu ac arwain cyrsiau iaith preswyl ar gyfer disgyblion yng Nghanolfan Glan-llyn yr Urdd, ger Y Bala. Bwriad y cyrsiau hyn yw sicrhau parhad a chynnydd profiadau ieithyddol y disgyblion mewn cyd-destun ehangach. Gwneir trefniadau ar gyfer cyrsiau i ddisgyblion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig sy'n astudio Cymraeg a Chymraeg fel ail iaith.

- Mae cydweithrediad agos yn bodoli rhwng Tîm Ymgynghorol y Gymraeg a'r athrawon TGCh ymgynghorol er mwyn creu adnoddau sy'n cynnig y meddalwedd angenrheidiol i'w galluogi i ddefnyddio'r dechnoleg fwyaf cyfoes i ddysgu ac addysgu Cymraeg.

- Mae cydweithrediad agos yn bodoli hefyd rhwng Tîm Ymgynghorol y Gymraeg a'r Tîm Cefnogi Dysgu er mwyn darparu canllaw a chefnogaeth o ran dysgu disgyblion sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig yn yr ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig.

- Dros y blynyddoedd mae Tîm Ymgynghorol y Gymraeg wedi meithrin cysylltiadau cadarn gyda sefydliadau eraill (e.e. ACEN, BBC a NEWI) er mwyn creu adnoddau a chanllawiau i athrawon ar faterion lleol a chenedlaethol ym maes Cymraeg a Chymraeg fel ail iaith. Rhagwelir y cryfheir ac y datblygir y partneriaethau hyn ymhellach.

Cyfeiriwch at Atodiad 6 am fanylion am gysylltiadau'r Awdurod ag amrywiol sefydliadau perthnasol.

23 Y POLISI CLUDIANT

23.1 Mae polisi cludiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn nodi: "Mae'r AALl yn darparu cludiant am ddim i'r ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf (boed yn Ysgol Benodedig neu'n Ysgol mewn Ardal Draddodiadol Gymraeg)".

Mae'r polisi hefyd yn gymwys i fyfyrwyr ôl-16.

Y pellter hiraf y mae disgyblion yn ei deithio i ysgolion cynradd ac uwchradd yn y sector cyfrwng Cymraeg yw 6 a 23 milltir, o'i gymharu â 3 a 7 milltir yn y sector cyfrwng Saesneg.

24 Y POLISI ARIANNU AR GYFER ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG

24.1 Mae elfen ariannol ychwanegol yn gynwysedig yn y cyllid a ddirprwyir i ysgolion i dalu am y costau ychwanegol o ddarparu cwricwlwm cyfrwng Cymraeg.

Bydd y cyllid ar gyfer myfyrwyr ôl-16 mewn addysg bellach yn denu cyllid ychwanegol yn ôl model ariannu ELWa.

25 DALGYLCHOEDD YSGOLION – Y POLISI.

25.1 Nid oes gan ysgolion AALl Wrecsam ddalgylchoedd. Gall rhieni fynegi dewis i'w plentyn fynychu'r ysgol addas agosaf, os bydd lle ar gael.

- Mae meini prawf gordanysgrifo yn cynnwys rhoi blaenoriaeth i frodyr a chwiorydd ar gyfer derbyniadau.

- Cynhelir trafodaethau ar hyn o bryd i adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer derbyniadau i Addysg cyfrwng Cymraeg.

26 DATBLYGIADAU I'R DYFODOL

26.1 Yn ystod cyfnod y cynllun addysg blaenorol 1998-2002 bu gwelliannau arwyddocaol yn narpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Nodwyd y manylion hyn yn adolygiad llawn a therfynol y cynllun ac roedd yn cynnwys symud Ysgol Morgan Llwyd o safle Llwyn Stockwell i'r adeilad presennol ar Ffordd Cefn, ailfodelu Ysgol Bodhyfryd a'r estyniad i Ysgol Plas Coch. Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Nyffryn Ceiriog wedi gwella drwy ailsefydlu addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Cynddelw. Cadarnha adroddiad arolwg diweddar Estyn lwyddiant addysg cyfrwng Cymraeg yr ysgol a'r AALl yn hyn o beth.

26.2 Mae'r Awdurdod yn gwbl ymroddedig i:-

a) Gynnal statws presennol yr iaith Gymraeg o fewn Wrecsam; a
b) Gwneud camau gwella pellach yn ystod cyfnod y cynllun hwn. Bydd hyn yn cynnwys cynnal arolwg ar draws y Sir i fesur y galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg a llunio cynllun gweithredu sy'n ymateb i'r canfyddiadau. (Gweler targed 2 .1).

Amlinellir y camau gwella hyn yn y targedau (cyfeiriwch at Adran 28 am fanylion llawn) gan gynnwys camau i wella:-

- Darpariaeth ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar;
- Darpariaeth mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac addysg ôl-16;
- Disgyblion sy'n derbyn cefnogaeth AAA;
- Darpariaeth ar gyfer hwyrddyfodiaid;
- Cydweithrediad â chyrff allanol a llywodraethwyr ysgol.

27 MONITRO

27.1 Bydd gweithrediad y Cynllun ar lefel yr Awdurdod yn cael ei fonitro gan y Cyfarwyddwr Strategol dros Blant a Phobl Ifanc a **Chydlynydd Tim Ymgynghorol y Gymraeg**. Bydd y Cynllun Addysg Gymraeg yn rhan o gyfres gynhwysfawr o bolisïau a chynlluniau a fydd yn sail i waith yr AALl a'i ysgolion.

Bydd monitro gweithrediad ac ansawdd ar lefel ysgolion yn ffurfio rhan o'r trefniadau cyffredinol ar gyfer monitro gwasanaethau ac sy'n cynnwys:

- Cynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y dyfodol
- Monitro addysgu a gweithredu'r Cwricwlwm
- Trefnu a darparu gwasanaethau cefnogi cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i ysgolion
- Monitro gweithrediad amserlen y Cynllun
- Ymgynghori ag ysgolion, y cyhoedd ac eraill sy'n ymddiddori mewn addysg Gymraeg a monitro amlder a natur cwynion ynghylch y Cynllun. Bydd y Cynllun yn cael ei fonitro yn gyson ac yn barhaus gan ddefnyddio'r system sydd eisoes yn ei le i fonitro gweithgareddau eraill yr Awdurdod. Croesewir awgrymiadau ar gyfer gwelliannau.

Y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Hamdden fydd yn gyfrifol am fonitro cwynion ynghylch Cynllun Addysg Gymraeg yr Awdurdod, ac ymatebir i'r rhain yn unol â Gweithdrefn Gwynion yr Awdurdod.

Bydd yr AALl yn darparu adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar ffurf a gymeradwyir gan y Bwrdd. Bydd yr adroddiad yn disgrifio'r cynnydd o ran gweithredu'r mesurau yn y cynllun yn erbyn yr amserlen gymeradwy a bydd yn dadansoddi hyd a lled a natur unrhyw gwynion, awgrymiadau ac addasiadau a awgrymwyd gan y cyhoedd.

Bydd yr Adran Addysg yn gwneud trefniadau i sicrhau adroddiadau blynyddol penodol ar berfformiad, a bydd yn paratoi adroddiad ar berfformiad yr Adran o ran cyflawni ei hymrwymiadau. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir a bydd ar gael i'r cyhoedd hefyd (gweler yr Adran Targedau 'Monitro'r Cynllun').

Bydd yr AALl yn croesawu ac yn nodi unrhyw awgrymiadau gan y cyhoedd mewn perthynas â gwella ei wasanaethau. Dylai unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno cynnig gwelliannau gysylltu â'r canlynol neu ysgrifennu at:

Mrs Enfys Thomas
Cydlynydd Tim Ymghynghorol y Gymraeg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Gwasanaethau Addysg a Hamdden
Canolfan Erlas
Ffordd Bryn Estyn
Wrecsam LL13 9TY
Rhif Ffôn: (01978) 317635
Rhif Ffacs: (01978) 317609
Cyfeiriad Ebost: enfys.thomas@wrexham.gov.uk

28 TARGEDAU AC AMSERLEN WEITHREDU FESUL SECTOR

28.1 Mae Cynllun Addysg Gymraeg 2006 - 2011 yn adlewyrchu'r agwedd strategol a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod, ac mae targedau'r Cynllun Addysg Gymraeg yn ategu y targedau a'r polisïau a nodwyd yng Nghynllun Addysg Sengl yr Awdurdod a'r Cynllun Gofal Plant a Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar.

Bydd gweithrediad y Cynllun yn cael ei fesur yn rheolaidd yn erbyn y dyddiadau targed. Gosodwyd amserlen 5 mlynedd i'w gweithredu, yn ystod y cyfnod 2006-2011.

Bydd yr AALl yn ystyried goblygiadau cyllidol unrhyw fesur lle mae angen arian ychwanegol, a bydd yn blaengynllunio yn gyllidol ac yn strategol er mwyn cyrraedd targedau'r Cynllun. Bydd yr amserlen yn cael ei hadolygu a'i hasesu'n flynyddol, a'i thrafod gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn dilyn cyflwyno adroddiad blynyddol ar weithrediad y Cynllun.

Os cynigir unrhyw ychwanegiadau neu newidiadau i'r amserlen neu'r targedau, ymgynghorer â Bwrdd yr Iaith Gymraeg cyn eu gweithredu.

TABLAU AR GYFER TARGEDAU'R CYNLLUN		
Targed	**Amserlen a dulliau gweithredu a chynllunio**	**Dyddiad cyrraedd y targed**
1. BLYNYDDOEDD CYNNAR		
1 Ymestyn y ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar bresennol i gynnwys pob ysgol cyfrwng Cymraeg ac unedau cymunedol er mwyn sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghymunedau lleol plant.	• **Parhau i gefnogi'r ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar bresennol ym Min y Ddôl a Bodhyfryd.** • **Sefydlu darpariaeth Blynyddoedd Cynnar ym mhob uned cyfrwng Cymraeg arall.** • **Cydweithredu â MYM a CDBCGP i sicrhau darpariaeth effeithiol.** • **Parhau i drefnu cyfarfodydd rheolaidd bob tymor.**	**Medi 2006.** **Ionawr 2006.** **Parhaus.** **Bob tymor o fis Ionawr 2006.**
2 Sicrhau bod 95%+ o'r disgyblion yn trosglwyddo'n llwyddiannus i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gynradd.	• **Parhau i gefnogi trefniadau trosglwyddo o unedau Blynyddoedd Cynnar mewn ysgolion cynradd cyfrwng Gymraeg penodedig.** • **Arfarniad blynyddol a chamau monitro i gael eu cwblhau gan y Swyddog Arweiniol/Cydlynydd dros y Gymraeg.**	**Parhaus o fis Ionawr 2006.**
3 AALl i sicrhau datblygiad proffesiynol priodol yn y Blynyddoedd Cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg.	• **Parhau â'r cydweithrediad rhwng y Tîm Blynyddoedd Cynnar a'r Athrawon Bro i sicrhau cydraddoldeb y ddarpariaeth.** • **Aelod o'r Athrawon Bro i ddarparu hyfforddiant yn flynyddol.**	**Yn flynyddol.**
2. ADDYSG GYNRADD		
1 Cynnal arolwg ar draws y Sir i fesur y galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg a llunio cynllun gweithredu sy'n ymateb i'r canfyddiadau.	• **Ymchwilio i ddulliau o gasglu data am rieni sydd â phlant dan ddwyflwydd oed.** • **Llunio holiadur ar sail yr holiadur enghreifftiol sydd ynghlwm wrth y Cynllun Addysg Unigol ac mewn ymgynghoriad â Bwrdd yr Iaith Gymraeg.**	**Hydref 2006 – Chwefror 2007** **Chwefror 2007 – Ebrill 2007**

		• **Cynnal yr arolwg.**	**Haf 2007**
		• **Dadsansoddi'r data yn sirol.** • **Creu cynllun gweithredu yn seiliedig ar ddata a chanfyddiadau'r arolwg.**	**Hydref 2007**
		• **Bwydo'r wybodaeth i mewn i gynlluniau trefniadaeth ysgolion.**	**Amserlen i'w phennu yn unol â'r canfyddiadau yn 5 uchod**
2	**Ymestyn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ardaloedd Rhos a Choedpoeth.**	• **Ymestyn ac ailfodelu'r adeiladau presennol yn ysgolion cyfrwng Cymraeg yr ardaloedd hyn er mwyn darparu** **(a) Lle i 210 o ddisgyblion yn y Rhos** **(b) Lle i 315 o ddisgyblion yng Nghoedpoeth (mewn adeilad parhaol) – gweler hefyd Adran 26.**	**Erbyn mis Rhagfyr 2006 yng Nghoedpoeth. Erbyn mis Medi 2007 yn Rhos (yn amodol ar ymgynghoriad).**
3	**Hwyluso cynnydd yn niferoedd y disgyblion sy'n dewis y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Nyffryn Ceiriog i 40% o'r garfan erbyn 2011.**	• **Bydd yr AALl yn parhau i ddarparu cyngor a chefnogaeth ychwanegol i'r ysgol er mwyn sicrhau cydraddoldeb rhwng y nifer sy'n dewis cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn Ysgol Cynddelw.**	**Parhaus.**
		• **Bydd y Tîm Athrawon Bro yn parhau i ddarparu cefnogaeth yn y dosbarth a HMS priodol i sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.**	**Parhaus.**
4	**Sefydlu dyraniad cyllid teg ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg.**	• **Bydd yr AALl yn adolygu'r broses ar gyfer cefnogi addysg cyfrwng Cymraeg yn ariannol gan gyfeirio'n arbennig at gefnogi** **(a) y pwnc craidd ychwanegol** **(b) 2 bwnc craidd pellach drwy gyfrwng y Gymraeg** **(c) y cwricwlwm allgraidd drwy gyfrwng y Gymraeg.**	**Ebrill 2006 – Mawrth 2007.**
5	**Bydd yr AALl yn sicrhau datblygiad proffesiynol priodol drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau**	• **Cefnogaeth rheoli a chwricwlaidd gan swyddogion yr AALl drwy gyfrwng y Gymraeg.**	**Parhaus.**
		• **Datblygu cysylltiadau pellach**	**O fis Medi 2005**

craidd ac allgraidd ar gyfer addysg gynradd.	**gyda CYDAG i gynnwys cyrsiau dydd ychwanegol.**	**ymlaen.**
	• **Galluogi athrawon/penaethiaid i rwydweithio (o fewn yr Awdurdod a thu hwnt) gydag athrawon eraill mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg drwy ddarparu cefnogaeth ariannol i adnabod a gwneud defnydd o arferion da.**	**O fis Medi 2005 ymlaen.**
6 Adolygu'r broses derbyniadau i adlewyrchu dewis y rhieni a'r twf yn y ddarpariaeth cyn-ysgol.	**Parhau i drefnu'r canlynol yn flynyddol:** • **strategaeth dderbyniadau y cytunir arni sy'n lleihau unrhyw bosibilrwydd o golli disgyblion o'r sector cyfrwng Cymraeg.**	**Yn flynyddol.**
	• **cyfarfodydd rhwng rhieni nad ydynt yn llwyddo i sicrhau eu dewis cyntaf o ran ysgol cyfrwng Cymraeg a swyddogion yr AALl a phenaethiaid ysgolion eraill.**	**Yn flynyddol yn y mis Mawrth cyn mynediad.**
	• **adolygu'r meini prawf derbyn i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg fel rhan o'r broses adolygu derbyniadau ehangach.**	**Erbyn mis Mawrth 2008.**
7 Datblygu rhaglenni'r cwricwlwm a'r Cwricwlwm Cymreig ymhellach i sicrhau bod gan 100% o'r ysgolion cynradd ddarpariaeth ddigonol yn unol â chanfyddiadau ESTYN a swyddogion perthnasol yr AALl.	• **Annog ysgolion/ consortia sydd heb strwythur cydlynol ar hyn o bryd i ddatblygu trefniadau cydweithredol.**	**Erbyn diwedd y cynllun.**
3. GWELLA'R TREFNIADAU PONTIO RHWNG CYNRADD AC UWCHRADD		
1 Cadw lefelau trosglwyddo yn 96% neu uwch.	• **Cynnal y cyfarfodydd bob tymor rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd yn y broses drosglwyddo.**	**Bob tymor.**
	• **Y Cydlynydd Cymraeg i fonitro ac arfarnu gwaith yr Athrawon**	**Parhaus.**

2 Parhau i ddarparu cefnogaeth gwricwlaidd i sicrhau dilyniant ieithyddol.	**Ymgynghorol.** • **Bydd yr Ymgynghorydd Dysgu ac Addysgu yn canolbwyntio ar gefnogaeth yn y dosbarth yn y sector uwchradd gan sicrhau continwwm iaith llwyddiannus.** • **Defnyddio arferion da sefydledig yng nghyfnod allweddol 2 i sicrhau trosglwyddo a thrawsnewid llyfn ac effeithiol o ran gwybodaeth a sgiliau iaith gan osgoi ailadrodd dianghenraid yng ngwaith cyfnod allweddol 2.**	**Yn flynyddol o 2006 ymlaen – tymor yr haf.**
4. ADDYSG UWCHRADD		
1 Datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ymateb i'r bartneriaeth ddysgu 14-19 gan gyfeirio at gysylltiadau cyrsiau galwedigaethol a gynigir y tu allan i Ysgol Morgan Llwyd.	• **Sicrhau bod y rhwydwaith 14 – 19 yn ystyried anghenion y disgyblion cyfrwng Cymraeg yn llawn yn y broses gwneud penderfyniadau.** • **Sicrhau y cynrychiolir y sector cyfrwng Cymraeg yn llawn ar y CCET a'r rhwydwaith 14 – 19.**	**O fis Medi 2006 ymlaen.**
2 Sicrhau darpariaeth addysgol briodol ar gyfer y rheini sy'n 11 oed sy'n dewis addysg drwy gyfrwng y Gymraeg am y tro cyntaf. Targedu 15 disgybl yn flynyddol.	• **Sefydlu gweithgor swyddogion/ ysgolion ar y cyd er mwyn sefydlu'r angen a'r ddarpariaeth arfaethedig ac adrodd yn ôl i'r Tîm Rheoli Addysg a Bwrdd yr Iaith Gymraeg.** • **Sefydlu prosiect trochi yn Ysgol Morgan Llwyd.**	**Erbyn mis Medi 2006.**
3 Cynyddu nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiad cwrs llawn mewn Cymraeg fel Ail Iaith - 5% yn flynyddol drwy gydol bywyd y cynllun.	• **Yr Ymgynghorydd Cymraeg a'r Uwch Swyddog Uwchradd i drafod gyda phenaethiaid / llywodraethwyr.**	**Yn flynyddol hyd Ebrill 2011.**
4 Cynyddu nifer y disgyblion sy'n ennill achrediad cydnabyddedig yn y Gymraeg fel Ail iaith o 7% yn flynyddol o'r canran presennol o 30%	• **Yr ymgynghorydd Cymraeg a'r Uwch Swyddog Uwchradd i drafod gyda phenaethiaid / llywodraethwyr.**	**Yn flynyddol hyd Ebrill 2011.**

5 Datblygu rhaglenni'r cwricwlwm a'r Cwricwlwm Cymreig ymhellach i sicrhau bod gan 100% o'r ysgolion uwchradd ddarpariaeth yn unol â chanfyddiadau ESTYN a swyddogion perthnasol yr AALl.	• **Annog ysgolion/consortia sydd heb strwythur cydlynol ar hyn o bryd i ddatblygu trefniadau cydweithredol.**	**Erbyn diwedd y cynllun.**
5. ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG		
1 Parhau i sicrhau y gellir cynnal asesiad statudol a llunio datganiad yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.	• **Seicolegydd Addysg cyfrwng Cymraeg eisoes yn gweithio ar hyn.**	**Seicolegydd newydd wedi apwyntio o fis Medi 2005.**
2 Cynnal y ddarpariaeth bresennol ar gyfer disgyblion AAA yn Ysgol Morgan Llwyd.	• **Parhau i gynnig y gefnogaeth a'r trefniadau ariannu presennol.**	**Parhaus.**
3 Adolygu'r gefnogaeth a ddarperir i ddisgyblion AAA cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cynradd.	• **Monitro'r trefniadau newydd y cytunwyd arnynt â'r pum ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg.**	**Parhaus.**
4 Gwella'r ddarpariaeth a therapiau trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer disgyblion sydd ag amhariadau synhwyraidd difrifol.	• **Cydweithio ag AALl eraill yng ngogledd Cymru i ddatblygu darpariaeth a chefnogaeth e.e. Prosiect Amlsynhwyraidd Cronfa Ysgolion Gwell sy'n cynnwys 6 AALl yng Ngogledd Cymru a darpariaeth therapïau.**	**Medi 2006 – Gorffennaf 2007 ac wedi hynny.**
6. GWASANAETHAU AR GYFER HWYRDDYFODIAID I'R IAITH GYMRAEG **Bydd yr AALl yn darparu cefnogaeth allanol i sicrhau y bydd hwyrddyfodiaid i'r fwrdeistref sirol yn derbyn y gefnogaeth briodol am gyfnod o amser er mwyn eu galluogi i dderbyn cefnogaeth ieithyddol gadarn yn y Gymraeg**	• **Bydd yr AALl yn cyhoeddi'r ddarpariaeth yn y llyfryn a gyhoeddir 'Canllaw Rhieni i Ysgolion'.** • **Bydd yr AALl yn archwilio natur yr angen gydag ysgolion er mwyn paratoi a dosbarthu adnoddau yn y dull mwyaf effeithiol.** • **Tîm yr Athrawon Bro i gefnogi**	**O 2006.** **Erbyn mis Medi 2006 ac yn flynyddol wedi hynny.** **Parhaus.**

yng Nghyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2 isaf.	**grwpiau o ddisgyblion a fyddai'n elwa o gefnogaeth ychwanegol.**	
7. CYDWEITHIO Â CHYRFF A / NEU SIROEDD ERAILL		
1 Datblygu cydweithrediad trawsawdurdod gydag awdurdodau eraill yng Nghymru er mwyn:- **- trefnu ac ymestyn cyfleoedd HMS** **- defnyddio, gwerthuso a datblygu adnoddau.**	• **Arfarnu'r adnoddau presennol a chreu adnoddau ychwanegol.** • **Trefnu HMS priodol.** • **Parhau i rannu arfer da.**	**Parhaus.** **Parhaus.** **Parhaus.**
2 Datblygu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth er mwyn gwella rhaglenni'r Cwricwlwm Cymreig ym mhob ysgol.	• **Y Cydlynydd Cymraeg i drefnu cyfarfodydd bob tymor â swyddogion TWF, Menter Iaith a'r Urdd i drafod y ffordd ymlaen a chyda MYM fel rhan o'r cyfarfodydd CDBCGP rheolaidd.**	**Parhaus bob tymor.**
8. HYFFORDDIANT A GWASANAETHAU AR GYFER LLYWODRAETHWYR YSGOL		
1 Darparu cefnogaeth Gymraeg/ddwyieithog ar gyfer cyfarfodydd pob corff llywodraethol lle bo'n briodol.	• **Sicrhau bod swyddogion ar gael i ddarparu hyfforddiant yn y Gymraeg fel bo angen.** • **Trefnu cyfleuster cyfieithu fel bo angen.**	**Parhaus** **Parhaus.**
2 Darparu'r holl hyfforddiant a'r adnoddau yn ddwyieithog ar gyfer llywodraethwyr ysgolion cyfrwng Cymraeg.	• **Swyddog Hyfforddi Llywodraethwyr i sicrhau bod y gwaith yn mynd yn ei flaen.**	**Medi 2006.**
9. ADDYSG ÔL-16		
1 Sicrhau bod gan ddisgyblion well mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg ar ôl	• **Cefnogi a datblygu ymhellach y ddarpariaeth academaidd/galwedigaethol ôl-16 yn 6^{ed} dosbarth Ysgol Morgan**	**Medi 2005.**

CA4.	**Llwyd yng ngoleuni trefniadau cyllido newydd ELWa.** • **Datblygu'r ddarpariaeth hon ymhellach drwy gydweithrediad rhwng ysgolion ag ysgolion eraill mewn rhannau eraill o Gymru.** • **Cynnal trafodaeth gyda darparwyr addysg a hyfforddiant eraill i ddatblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ymhellach ar lefel Addysg Bellach.**	**2005 – 2006 ac yn flynyddol.**
10. MONITRO'R CYNLLUN **1 Sicrhau bod y Cyfarwyddwyr, Prif Swyddogion a'r adrannau perthnasol eraill o fewn y fwrdeistref sirol yn ymwybodol o'r Cynllun a'i gynnwys.**	• **Anfon copïau o'r Cynllun at yr holl staff perthnasol.** • **Yr holl staff perthnasol i adrodd i'r swyddogion monitro yn gyson**. • **Adroddiad gwasanaeth i'w anfon i'r Tîm Rheoli Addysg**. • **Rhannu cynnwys y cynllun a diwygiadau cyson gyda'r Tîm Rheoli Addysgol Estynedig**. • **Rhannu cynnwys y cynllun a diwygiadau cyson gyda'r staff perthnasol ar ddyddiau hyfforddi tîm tymhorol.** • **Rhannu cynnwys y cynllun a diwygiadau cyson gyda Thîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth - y Cynllun Addysg Gymraeg i fod yn eitem reolaidd ar agenda'r cyfarfodydd hyn**.	**Erbyn dechrau'r cynllun** **Mis Ebrill yn flynyddol.** **Mis Mehefin yn flynyddol.** **Ym mhob cyfarfod misol (lle bo'n briodol).** **Ar ddiwedd bob tymor.** **Yn flynyddol.**
2 Sicrhau bod monitro'r cynllun ar lefel Awdurdod yn weithgaredd strwythurol parhaus.	**Bydd yr Awdurdod yn monitro:** • **Cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol** • **rhan y Cynllun Addysg Gymraeg mewn polisïau a chynlluniau eraill sy'n ffurfio sylfaen gwaith yr AALl mewn ysgolion** • **Trefnu a darparu gwasanaethau cefnogi i ysgolion**	**Yn flynyddol.** **Yn flynyddol.** **Cyfeirio at yr adroddiad**

		gwasanaeth.
	• **gweithredu'r Cwricwlwm Cenedlaethol**	**Adroddiadau arolwg/ Cynlluniau datblygu ysgolion /Datganiadau Datblygu Ansawdd**
	• **gweithredu amserlen y cynllun**	**Nodwyd yn Adran 28.**
	• **llwyddo i weithredu'r mesurau yn erbyn amserlen y cynllun**	**Nodwyd yn Adran 28.**
	• **nifer y cwynion sy'n ymwneud â'r cynllun a'u natur.**	**Bob tymor i'r Prif Swyddog Dysgu a Chyflawniad.**
	• **Darparu gwasanaeth – ymgynghori ag ysgolion a'r cyhoedd er mwyn gwybod eu barn ynghylch ehangder ac ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.**	**Yn flynyddol ym mis Hydref.**
3. Darparu adroddiad blynyddol	• **Cydlynydd Tîm Ymgynghorol y Gymraeg i lunio adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.**	**Yn flynyddol o ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun.**
	• **Cydlynydd Tîm Ymgynghorol y Gymraeg i sicrhau bod copi o'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i Aelodau etholedig y Cyngor.**	**Yn flynyddol o ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun.**

Gwybodaeth y Cyfrifiad: Siaradwyr Cymraeg yn ôl wardiau etholiadol



Yn seiliedig ar fap OS – Hawlfraint y Goron. Trwydded Rh LA09021L 2003 CBSW

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001. Paratowyd gan JV Cowley, Ymchwil Cynllunio

Cymuned	Cyf Pobl	Pobl	Cyf Pob sy'n 3 +	Siarad Cym	% siarad Cym
Bwrdeistref Sirol Wrecsam	128,476	126,832	124,024	17,898	14.43
Worthenbury	730	730	706	50	7.08
Erbistock	409	409	402	30	7.46
Yr Orsedd	3,336	3,277	3,214	244	7.59
Holt	1,762	1,732	1,709	137	8.02
Isycoed	348	333	332	28	8.43
Owrtyn	1,276	1,276	1,238	115	9.29
Parc Caia	11,882	11,798	11,338	1,107	9.76
Hanmer	726	724	701	69	9.84
Llai	4,905	4,845	4,733	487	10.29
Bronington	1,228	1,228	1,198	124	10.35
Gresffordd	5,334	5,220	5,180	546	10.54
De Maelor	1,137	1,117	1,107	117	10.57
Gwersyllt	10,056	9,920	9,659	1,021	10.57
Marchwiel	1,418	1,418	1,387	156	11.25
Broughton	6,948	6,909	6,646	758	11.41
Y Waun	4,375	4,327	4,230	495	11.70
Acton	12,960	12,949	12,598	1,506	11.95
Bangor	1,266	1,266	1,231	149	12.10
Abenbury	718	716	697	88	12.63
Rhosddu	6,582	6,174	6,413	813	12.68
Sesswick	591	590	573	75	13.09
Rhiwabon	3,515	3,494	3,412	467	13.69
Offa	9,852	9,566	9,534	1,341	14.07
Cefn	6,699	6,605	6,454	914	14.16
Brymbo	3,482	3,436	3,361	569	16.93
Llangollen Wledig	1,999	1,998	1,940	334	17.22
Esclusham	3,401	3,375	3,256	569	17.48
Y Mwynglawdd	1,608	1,608	1,557	326	20.94
Coedpoeth	4,721	4,680	4,538	956	21.07
Penycae	3,463	3,463	3,326	714	21.47
Glyntraiain	878	850	857	226	26.37
Rhosllannerchrugog	9,439	9,376	9,110	2,826	31.02
Llansantffraid Glyn	1,086	1,077	1,052	385	36.60
Ceiriog Ucha	346	346	335	156	46.57

ATODIAD 02

Ystadegau a darogan poblogaeth

Y sector cynradd yn Wrecsam (yn ôl grŵp consortiwm)

	Gwir nifer llawn amser ar y gofrestr					Nifer llawn amser tybiedig ar y gofrestr				
Consortiwm	00/01	01/02	02/03	03/04	04/05	05/06	06/07	07/08	08/09	09/10
Bryn Alun	1,281	1,258	1,258	1,245	1,262	1,237	1,229	1,217	1,212	1,198
Darland	1,100	1,113	1,132	1,107	1,142	1,133	1,137	1,138	1,136	1,116
Dinas Brân	729	733	707	684	667	647	616	584	564	550
Grango	997	986	972	923	930	942	924	921	901	901
Morgan Llwyd	995	952	949	947	917	900	898	896	914	907
Rhosnesni	2,152	2,127	2,108	2,059	2,060	2,055	2,035	2,044	2,039	2,026
Rhiwabon	850	830	820	826	815	792	772	756	753	758
Sant Joseff	409	423	418	430	444	436	438	434	429	416
Y Maelor	630	621	623	624	615	617	619	629	622	607
Ysgol Clywedog	1,795	1,748	1,654	1,633	1,635	1,642	1,646	1,624	1,617	1,621
AALl Wrecsam	**10,938**	**10,791**	**10,641**	**10,478**	**10,487**	**10,401**	**10,314**	**10,243**	**10,187**	**10,100**

Y sector uwchradd yn Wrecsam

	Gwir nifer llawn amser ar y gofrestr					Nifer llawn amser tybiedig ar y gofrestr				
Ysgol	00/01	01/02	02/03	03/04	04/05	05/06	06/07	07/08	08/09	09/10
Bryn Alun	678	672	678	696	741	765	770	783	771	784
Darland	921	955	992	995	975	1,002	1,008	1,001	1,007	1,072
Grango	577	568	563	529	459	413	406	395	405	429
Morgan Llwyd	736	746	777	757	803	841	835	825	807	797
Rhosnesni	-	-	-	1,264	1,183	1,174	1,162	1,143	1,139	1,142
Rhiwabon	585	601	577	606	679	699	703	705	680	611
Sant Joseff	476	478	506	516	527	533	524	508	500	506
Y Maelor	671	704	752	828	802	827	810	792	795	820
Ysgol Clywedog	-	-	-	1,047	1,081	1,065	1,066	1,052	1,005	988
AALl Wrecsam	**7,097**	**7,114**	**7,146**	**7,238**	**7,250**	**7,319**	**7,284**	**7,204**	**7,109**	**7,149**

ATODIAD 03

Lleoliad Ysgolion Cyfrwng Cymraeg ac Ysgolion mewn Ardal Draddodiadol Cymraeg



ATODIAD 04

Rhestr o gyrsiau HMS a ddarperir ar gyfer Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith

CYRSIAU HMS – Cynradd ac Uwchradd (Iaith 1af ac 2il Iaith)

CYNRADD (Ysgolion Penodedig Gymraeg)

Adrodd storïau
Datblygu sgiliau ysgrifennu
Datblygu sgiliau darllen
Defnyddio'r Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol i Integreiddio Sgiliau Iaith

UWCHRADD (Ysgol Morgan Llwyd)

TGAU (Iaith a Llenyddiaeth)
Arholwr Allanol safon Uwch
Cywirdeb Iaith
Beirdd ac awduron gwadd

CYNRADD (Ail iaith)

Cwrs 6 diwrnod ar gyfer athrawon blynyddoedd 5/6
Cwrs 6 diwrnod ar gyfer athrawon blynyddoedd 3/4
Cwrs Diploma 3 blynedd (tystysgrifedig gan CPGC Bangor)
Cwrs Iaith a Methodoleg Sylfaenol 10 diwrnod

UWCHRADD (Ail iaith)

Datblygu sgiliau iaith
Defnyddio'r Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol i Ddatblygu Sgiliau Iaith
Cynllunio Gwersi
Rhannu Arfer Dda

ATODIAD 05

Rhestr o'r dosbarthiadau/grwpiau meithrin cyfrwng Cymraeg a gynhelir gan yr Awdurdod

Cefn Mawr (Ysgol Gynradd Min-y-Ddôl)
Coedpoeth (Ysgol Gynradd Bryn Tabor)
Ysgol Cynddelw Glynceiriog
Ysgol Gynradd Llanarmon DC
Ysgol Gynradd Gymraeg Rhos - (Ysgol I D Hooson)
Wrecsam (Ysgol Bodhyfryd)
Wrecsam (Ysgol Plas Coch)

ATODIAD 06

Cysylltiadau ag awdurdodau ac asiantaethau eraill

URDD GOBAITH CYMRU
Yn cydweithredu trwy:

- hyrwyddo'r defnydd o gyhoeddiadau'r Urdd mewn ysgolion: Bore Da (ail iaith cynradd), CIP (iaith gyntaf cynradd), IAW! (ail iaith uwchradd)
- paratoi cynnwys ar gyfer y cyhoeddiadau uchod
- trefnu gweithgareddau sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg mewn cyd-destun ehangach.

BBC CYMRU
Yn cydweithredu trwy:

- baratoi deunyddiau ar gyfer myfyrwyr Cymraeg ail iaith ee fideo 'Crefyddau'r Byd'
- paratoi deunyddiau ar gyfer Data Adnoddau Ar-lein

ACCAC
Yn cydweithredu trwy:

- fynychu cyfarfodydd i fonitro adnoddau Cyfnodau Allweddol 1 a 2
- cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb â swyddogion ACCAC i gynnig awgrymiadau am ddarpariaeth adnoddau yn y dyfodol

CBAC
Mae'r cydweithrediad â CBAC yn digwydd drwy'r panel cydlynwyr cenedlaethol, a'r gwaith a wneir gan y cydlynydd Cymraeg fel darparwr a Phrif Arholwr.

RSPB
Yn cydweithredu trwy:

- greu adnoddau ar gyfer cyrsiau iaith a gynhelir yng Nglan-llyn
- gweithio ar y cyd â swyddog yr RSPB ar y cyrsiau hyn

TWF
Trefnu cyfleoedd i rieni disgyblion meithrin mewn ysgolion babanod cyfrwng Saesneg ddysgu Cymraeg gyda'u plant.

MENTER MAELOR
Cyfarfodydd i drefnu gweithgareddau sy'n defnyddio'r iaith Gymraeg mewn cyd-destun ehangach.

AALl POWYS
Cyfle i Adran Gymraeg Ysgol Morgan Llwyd rwydweithio ag athrawon adrannau Cymraeg ysgolion uwchradd Powys i greu a gwerthuso adnoddau, trefnu HMS a rhannu arfer dda.

ATODIAD 07

Niferoedd sy'n dilyn cyrsiau ôl 16 drwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Morgan Llwyd– 2004 - 2005

	TGAU Blwyddyn 12	**TGAU Blwyddyn 13 ac uwch**
Saesneg	12	1
Gwyddoniaeth	4	0

	AS Blwyddyn 12	**A2 Blwyddyn 13 ac uwch**
Celf a dylunio	13	2
Bywydeg	11	5
Astudiaethau busnes	25	1
Cemeg	7	2
Cyfrifiaduron	5	2
Dylunio a thechnoleg	15	3
Drama ac astudiaethau theatr	5	4
Saesneg iaith	20	0
Ffrangeg	5	1
Daearyddiaeth	24	7
Hanes	10	8
Mathemateg	10	4
Astudiaethau'r cyfryngau	15	6
Cerddoriaeth	9	2
Addysg gorfforol	6	3
Ffiseg	3	3
Astudiaethau crefyddol	4	0
Cymraeg iaith gyntaf	12	10
Llywodraeth a gwleidyddiaeth	7	2
Iaith a llenyddiaeth Saesneg	0	9

	Sgiliau allweddol Blwyddyn 12	**Sgiliau allweddol Blwyddyn 13 ac uwch**
Defnyddio Rhifau – Lefel 2	84	0
Cyfathrebu – Lefel 2	84	0
Technoleg Gwybodaeth – Lefel 2	82	0
Technoleg Gwybodaeth – Lefel 3	2	0
Cydweithio ag eraill – Lefel 2	81	0
Cydweithio ag eraill – Lefel 3	3	0
Gwella dysgu a pherfformiad personol – Lefel 2	84	0
Datrys problemau – Lefel 2	2	0
Datrys problemau – Lefel 2	82	0

	CGCC Blwyddyn 12	**CGCC Blwyddyn 13 ac uwch**
Iechyd a gofal cymdeithasol	15	0
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	3	0
Pwnc canolradd CGCC arall	1	0

	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13 ac uwch
Gwobr Dug Caeredin – Aur	12	0
Gwobr Dug Caeredin – Arian	0	1
Gwobr Ieuenctid ASDAN (Arian)	16	1

2005 – 2006

	Blwyddyn 12 Lefel U/UG	Blwyddyn 13 Lefel U/UG
Cymraeg	26	11
Cerddoriaeth	4	3
Bywydeg	17	7
Bagloriaeth 1	21	
Bagloriaeth 2	21	
Bagloriaeth 3	21	
Bagloriaeth 4	19	
Addysg Grefyddol	0	2
Gwleidyddiaeth	11	2
Drama	6	2
Daearyddiaeth	25	5
Dylunio a Thechnoleg	7	22
Cemeg	14	11
Addysg Gorfforol	8	2
Astudiaethau Busnes	13	6
Ystadegau	8	15
Saesneg	11	3
Mecaneg		11
Mathemateg	11	3
Cyfrifiaduron	10	3
Celf	7	5
Hanes	11	3
Ffrangeg	3	8
Astudiaethau'r Cyfryngau	13	4
Cymdeithaseg	4	9

	Blwyddyn 12 TGAU
Saesneg	16
Mathemateg	11
Gwyddoniaeth	2
Cymraeg	3
Daearyddiaeth	1

	Blwyddyn 12 TGAU
Technoleg gwybodaeth	4
Technoleg a diwydiant ysgafn	2
Iechyd a gofal cymdeithasol	9